



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Uned Gomisiynu
Cydwethredol Cenedlaethol
National Collaborative
Commissioning unit

Adolygiad Gofal Cenedlaethol YSBYTAI CAMHS

AROLWG CENEDLAETHOL AR OFAL PLANT
A LEOLIR MEWN YSBYTAI ARBENIGOL
NAS RHEOLWYD GAN GIG CYMRU
YN UNIONGYRCHOL

—

SHANE MILLS • MEDI 2019

Cyfranwyr ar Arolygiad Iechyd Cenedlaethol

Gyda diolch i Wasanaeth Sicrhau Ansawdd a
Gwella GIG yr Uned Gomisiynu Cydweithredol
Cenedlaethol am eu cefnogaeth wrth wneud yr
Adolygiad Gofal Cenedlaethol hwn.

Shane Mills	Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Cleifion
Adrian Clarke	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch Cleifion
Ross Whitehead	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Pherfformiad
Martyn French	Uwch Ymarferydd Cartrefi Gofal
Debra Hillman	Uwch Ymarferydd Ysbytai [Cydlynnydd yr Adolygiad]
Dawn Painter	Pennaeth Cydymffurfiaeth
Edward Spencer	Ymchwilydd
Richard Cheng	Swyddog Cydymffurfiaeth
Dawn Matthews	Swyddog Cydymffurfiaeth
Leeha Kostin	Cydlynnydd Sicrwydd yr Adolygiad
Mary Porter	Swyddog Perfformiad a Gweinyddiaeth
Bobby Mitik	Swyddog Perfformiad a Gwybodaeth
Aine Davies	Ymarferydd Anableddau Dysgu
Huw O'Neill	Ymarferydd Iechyd Meddwl
Yvette Davies	Ymarferydd Iechyd Meddwl
Violet Borgia	Ymarferydd Iechyd Meddwl
Robert Thomas	Ymarferydd Iechyd Meddwl
Clare Morgan	Ymarferydd Iechyd Meddwl
Stellah Chinamo	Ymarferydd Iechyd Meddwl

Ynglŷn â'r Adroddiad hwn



Awdur yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn yw

SHANE MILLS

CYFARWYDDWR ANSAWDD A PHROFIAD CLEIFION

UNED GOMISIYNU CYDWEITHREDOL CENEDLAETHOL

Comisiynwyd yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn gan Yr Athro Jean White CBE, Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwr Nyrsio, GIG Cymru.

Gwnaethpwyd adolygiadau a darparwyd cefnogaeth clinigwr a gweinyddwyr yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol.

Gwnaed pob adolygiad rhwng 3 Mehefin a 7 Mehefin, 2019.

Mae'r wybodaeth yn yr Adolygiad hwn yn ymwneud ag amgylchiadau a chofnodion oedd ar gael ar ddiwrnod yr adolygiad yn unig.

Am resymau cymharu, lle bo'n bosibl, rhoddwyd nifer a chanrannau yn yr Adolygiad hwn. Yn gyffredinol, mae'r niferoedd yn fach a dylai'r darllenydd sicrhau na ddeuir i unrhyw gasgliadau anghywir o'r canrannau uchel a gynhyrchwyd.

Am symlrwydd, defnyddir y disgrifydd 'Plentyn'/'Plant' drwy gydol yr adolygiad hwn i ddynodi'r grŵp cleifion o dan 18 oed, er y gall 'glasoed' ac 'oedolyn ifanc' ddisgrifio'r rheini sydd rhwng 16 a 18 oed hefyd.

Cynnwys

Crynodeb o'r canfyddiadau	5
---------------------------	---

1. Cefndir	9	25. Adolygiad Ansawdd	53
2. Gwasanaethau	10	25.1. TAA: Staff	53
3. Methodoleg	11	25.2. TAA: Cynllunio Gofal	54
4. Rhywedd	12	25.3. TAA: Ymyriadau Ffarmacolegol	54
5. Oedran	13	25.4. TAA: Iechyd Corfforol	55
6. Darparwyr	14	25.5. TAA: Ymyriadau Cyfyngol	55
7. Math o ofal	15	25.6. TAA: Ymyriadau Therapiwtig	56
8. Llwybrau Mynediad	16	25.7. TAA: Arsylwadau Diogelwch	56
9. Diagnosis	18	25.8. TAA: Diogelwch a Lles	57
10. Deddf Iechyd Meddwl	19	25.9. TAA: Addysg	57
11. Hyd yr Arhosiad Cyfredol	21	25.10. TAA: Maetheg	58
12. Cydlynid y gofal	23	26. Casgliad	59
13. Cynllunio Gofal	24		
14. Canlyniadau Comisiynu	25		
15. Therapi	27		
16. Gofal Iechyd Sylfaenol a Gofal Brys	29		
17. Lefelau Gofal	30		
18. Ymddygiadau Risg	35		
19. Ymyriadau Cyfyngol Hollgynhwysfawr	41		
20. Ymyriadau Cyfyngol Atal/Neilltuaeth	43		
21. Meddyginiaeth	46		
22. Monitro Sgil Effeithiau Meddyginiaeth	48		
23. Absenoldeb	50		
24. Gwybodaeth CID	51		

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Dyma grynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion ledled holl feysydd yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn.

Llwybr Mynediad:

Er y gallai'r mynediadau cyfredol fod yn briodol, dylid ystyried a oes cyfle o gwbl i ddatblygu llwybrau gofal gwahanol i atal/leihau derbyniadau yn y dyfodol, rhwng cartrefi plant a gofal diogel, canolig, unedau aciwt CAMHS GIG Cymru a PICU/diogelwch isel.

Cydlynu Gofal:

Rhaid sicrhau bod gan bob plentyn gydlynnydd gofal, reolwr achos, neu unigolyn proffesiynol arall i gynnal cyswllt rheolaidd â gwasanaethau. Rhaid i'r bobl yma sicrhau y bodlonir anghenion pob plentyn, eu bod yn gweithredu fel eiriolwr, yn sicrhau yr archwilir pob cwyn neu achos, a bod unrhyw ymyrraeth gyfyngol yn angenrheidiol a chymesur.

Cynllunio Gofal:

Rhaid sicrhau bod pob Cynllun Gofal a Thriniaeth yn cael eu cyd-gynhyrchu gan y plentyn, ac y cânt eu hadolygu'n rheolaidd. Rhaid i dimau gofal lleol sicrhau eu bod yn rhan o waith datblygu ac adolygu'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Canlyniadau Comisiynu:

Dylem sicrhau bod y comisiynydd a darparwr pob lleoliad wedi cytuno ar gyfres o ganlyniadau cadarn. Dylem sicrhau y gwneir cynnydd tuag at fodloni'r canlyniadau hyn ac y cânt eu monitro'n agos, fel y gallwn sicrhau bod pob taith drwy ofal plant a leolir yn ysbytai CAMHS yn digwydd mor fuan â phosibl.

Diagnosis:

Dylem sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried anghenion plant a chanddynt Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth fel rhai gwahanol, er, o bryd i'w gilydd maent wedi eu rhyng-gysylltu, i'r rheini a chanddynt salwch meddwl.

Gwyliau:

Dylem sicrhau y gall pob plentyn, lle bo'n ddiogel a therapiwtig, gael absenoldeb yn y gymuned neu absenoldeb gartref.

Hyd y Derbyniad Cyfredol:

Mae hyd ambell i arhosiad, yn arbennig mewn unedau diogel isel, i bob golwg yn helaeth. Dylem sicrhau nad yw pob plentyn yn aros yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol o ran darpariaeth asesu priodol, gofal a thriniaeth.

Lefelau Gofal:

Dylem sicrhau yr archwilir y materion sy'n dilyn: Diogelwch – rhagwelwyd bod 2 blentyn ond 2, yn yr ystod oed disgwyledig y math hwn o ofal, gydag 1 yn is na'r hyn a ddisgwylwyd, ac 1 yn uwch. Gweithgareddau – roedd pob plentyn yn yr ystod oed disgwyledig am y math hwn o ofal. Meddyginiaeth – roedd pob un ond 1 plentyn yn yr ystod ddisgwyledig am y math hwn o ofal, gydag 1 yn uwch na'r hyn a ddisgwylwyd.

Meddyginiaeth:

Dylem sicrhau yr adolygir pob meddyginiaeth er mwyn sicrhau y rhagnodir hwy ar y dos lleiaf posibl i sicrhau'r lleihad a ddymunir mewn symptomau. Dylem sicrhau y rhoddir meddyginiaeth er diben tawelu ymddygiad aflonydd ac fe'i defnyddir fel yr ymyrraeth olaf un. Dylem archwilio pob cyfle i leihau'r defnydd o PRN.

Meddyginiaeth Monitro Sgil Effeithiau:

Dylem sicrhau y caiff pob plentyn sy'n cael meddyginiaeth seicotroffig neu hypnotig a ragnodwyd ei fonitro'n rheoliad ar gyfer sgil effeithiau posibl ac y c aiff wiriadau iechyd corfforol yn rheolaidd, os yn briodol.

Deddf Iechyd Meddwl:

Dengys yr wybodaeth hon fod gennym lwybrau ar waith i ofalu fod plant a chanddynt faterion cyfiawnder troseddol yn cael asesiad a gofal priodol. Rhaid sicrhau y caiff pob plentyn fynediad at y llwybrau hyn a'u bod mor gadarn â phosibl.

Gofal Iechyd Sylfaenol ac Ar frys:

Dylem sicrhau bod pob plentyn yn cael gwasanaethau iechyd sylfaenol yn rheolaidd, yn ôl y gofyn. Dylem sicrhau bod amgylcheddau gofal yn ddiogel er mwyn lleihau'r angen i gael gwasanaethau gofal ar frys. Dylem sicrhau y caiff pob plentyn ofal mewn argyfwng, pan fo'i angen.

Safon [Cynllunio Gofal]:

Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf y darparwyr yn arddel agwedd holistaidd a phersonol er mwyn asesu'r unigolyn, bodlon ei anghenion, a sicrhau ei bod yn gallu rheoli, ac yn wybodus. Rhaid i ni sicrhau bod pob uned yn cynnal adolygiadau gofal a thriniaeth yn rheolaidd.

Safon [Addysg]:

Gwnaeth pob uned ymdrech i fodloni gofynion addysg y plentyn, er yr angen i gydbwysu hynny yn erbyn pryderon risg a diogelwch. Mae'n rhaid i asesiadau gynnwys anghenion addysgol a materion cyn-mynediad.

Safon [Maetheg]:

Yn gyffredinol, mae unedau'n darparu deiet iachus, cytbwys a chymorth dieteteg. Er, ni chafodd pob mater ei ganfod drwy asesu cychwynnol.

Safon Ymyriadau Ffarmacolegol:

Yn gyffredinol, caiff meddyginiaeth ei ddosbarthu, ei weinyddu a'i fonitro mewn modd gweithredol a'i archwilio'n allanol. Canfuwyd diffyg i ganfod sgil effeithiau posibl meddyginiaethau. Yn hytrach, gwelwyd gorddibyniaeth ar sgiliau staff.

Ansawdd [Iechyd Corfforol]:

Gwnaethpwyd gwiriadau iechyd corfforol ar y rhan fwyaf o unedau, gyda llawer yn cynhyrchu cynlluniau iechyd corfforol cadarn. Dylai pob plentyn gael cynllun gofal iechyd corfforol.

Ansawdd [Ymyriadau cyfyngol]:

Yn gyffredinol, defnyddir ataliaeth mewn modd cymedr a phriodol ond mae angen iddo fod yn bersonol, gael ei drafod a'i gofnodi fel rhan o'r cynllun gofal a thriniaeth. Prin yw'r defnydd ar neilltuaeth, ond pan ddefnyddir ef, rhaid iddo fod am y cyfnod lleiaf posibl. Mae gwaharddiadau cyfan gwbl yn gyffredin. Rhaid adolygu pob gwaharddiad hollgynhwysfawr yn rheolaidd, er sicrhau eu bod yn angenrheidiol, ac wedi'u cydbwysu yn erbyn rhyddid personol.

Ansawdd [Staff]:

Yn gyffredinol, mae staff yn fedrus iawn, yn brofiadol ac wedi'u hyfforddi, er y dylid dibynnu llai ar staff asiantaethau. Teimla'r plant fod staff yn gefnogol.

Ansawdd [Arsylwadau gofal]:

Yn gyffredinol, adolygwyd arsylwadau diogelwch yn rheoliad er sicrhau bod cyfiawnhad drostynt, ac y gwiredwyd a chofnodwyd nhw.

Ansawdd [Diogelwch a Lles]:

Yn gyffredinol, gwneir asesiad risg a rheolaeth yn ac fe'i hadolygwyd yn rheolaidd. Mae prosesau diogelu ar waith. Ceisir barn ac awgrymiadau plant.

Ansawdd [Ymyriadau Therapiwtig]:

Caiff pob plentyn gefnogaeth unigol, amrywiol, a chymorth seicolegol a therapiwtig mewn grŵp.

Ymyriadau cyfyngol – 'Cyfyngiadau hollgynhwysfawr':

Dylem sicrhau bod pob cyfyngiad hollgynhwysfawr yn ystyriol, yn gymesur, wedi ei gofnodi, a'i weinyddu am y cyfnod lleiaf posibl.

Ymyriadau cyfyngol – Ataliaeth/Gwahaniad:

Dylem sicrhau y gwnaethpwyd yr un digwyddiad o ataliaeth wyneb i lawr fel y weithred olaf un. Dylem archwilio nifer yr achosion uchel o 'ddad-ddwysáu geiriol' er mwyn sicrhau y cymerir pob cam gweithredu i hyrwyddo diwylliant ac awyrgylch cadarnhaol ar y wardiau. Dylem archwilio nifer uchel o achosion 'ymarferol (dim ataliaeth)' er sicrhau nad ataliaeth mohonynt, o ran eu natur na'u graddfa. Dylem archwilio'r defnydd cyson o 'derfynu' er sicrhau nad neilltuaeth mohono. Dylem sicrhau bod pob achos o 'neilltuaeth' yn weithredol olaf un ac y gwnaed hynny mewn amgylchedd addas, am y cyfnod lleiaf angenrheidiol ac y cofnodwyd hynny'n fanwl.


Ymddygiadau Risg:

Rhaid i ni sicrhau bod darparwyr yn cymryd pob cam gweithredu i leihau'r lefelau uchel o ymddygiad bygythiol, yn arbennig ymhlith bechgyn. Rhaid i ni sicrhau bod darparwyr yn cymryd pob cam gweithredu i leihau'r lefelau uchel o ymddygiad treisgar, yn arbennig ymhlith bechgyn. Dylem sicrhau bod darparwyr yn cymryd pob cam gweithredu i leihau'r lefelau uchel o hunan-niweidio bwriadol ymhlith merched. Dylem barhau i fonitro ymddygiad peryglus plant mewn ysbytai i sicrhau nad yw'r ymddygiad hwn yn cael ei reoli a'i leihau yn briodol, drwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar roi lle canolog i'r unigolyn, yn seiliedig ar werthoedd, gan staff profiadol, medrus.

Therapi

Dylem sicrhau bod pob darparwr yn cyflogi ac yn trefnu tîm amlbroffesiwn i ffurfio, asesu, trin ac adolygu ymyriadau clinigol, therapiwtig a seicolegol a dulliau i ddarparu gofal effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, mewn diwylliant cadarnhaol, gobeithiol i bob plentyn.

Adolygiad Cenedlaethol ar ofal plant a leolwyd mewn Ysbytai Arbenigol nas rheolwyd gan GIG Cymru yn uniongyrchol



1 Y Cefndir

Ystyr 'CAMHS' yw Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Gwasanaethau ydynt sy'n asesu a thrin plant a chanddynt anawsterau emosïynol, ymddygiadol, deallusol neu iechyd meddwl.

Pwysleisidd Future in Mind (2015)¹ yr angen am "ofal gwell i blant a glasoes mewn argyfwng fel y cânt eu trin yn y lle cywir, ar yr amser cywir ac mor agos â phosibl i gartref". Mae hyn yn cynnwys "gweithredu llwybrau eglur, yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gofal yn y gymuned, yn cynnwys triniaeth ddwys yn y cartref, lle bo'n briodol", er mwyn osgoi derbyniadau diangen i ofal cleifion mewnol. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth y bydd "angen gofal cleifion mewnol mwy dwys ac arbenigol" ar rai plant bob amser.

Ym Mai 2019, fe gomisiynodd yr Athro Jean White CBE, Prif Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru, Chyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru Gyfarwyddwr Safon a Phrofiad Cleifion yn GIG Cymru Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol i gyflawni adolygiad Iechyd Cenedlaethol ar blant sy'n derbyn gofal arbenigol mewn ysbyty. Byddai'r adroddiad yn cynnwys gwasanaethau cleifion mewnol CAMHS gan ddarparwyr allanol (nid ysbytai GIG Cymru) tebyg i NHS England neu'r sector ysbytai annibynnol.

Byddai'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn yn sicrhau bod plant yn derbyn:

- Gofal am gyn lleied o amser â phosibl yn yr amgylchedd cywir i fodloni eu holl ofynion.
- Gofal sy'n grymuso, yn galluogi ac yn gynhwysol.
- Y cymorth priodol er mwyn lleihau risg, hyrwyddo annibyniaeth a gwella safon bywyd.
- Meddyginiaeth wedi'i rhagnodi ar y dos lleiaf angenrheidiol er mwyn bodloni'r canlyniadau clinigol a monitro sgil effeithiau'n yn ofalus.
- Gofal diogel, effeithiol o safon uchel gyda'r defnydd lleiaf posibl o ataliaeth neu arferion cyfyngol eraill.
- Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniad gan amrywiaeth o staff profiadol, medrus.

¹ Future in Mind (2015) Promoting, protecting and improving our children and young people's mental health and wellbeing. GIG Lloegr¹.

2 Gwasanaethau

Fel arfer, daw gwasanaethau cleifion mewnol CAMHS o fewn yr hyn a wybyddir yn wasanaethau 'Haen 4'. Gwasanaethau yw'r rhain y diffinnir fel darpariaeth arbenigol a gomisiynwyd yng Nghymru gan Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru.

Mae Haen 4 arbenigol CAMHS yn hanesyddol yn gyfystyr â gwasanaethau cleifion mewnol seiciatrïg. Er yn ddiweddar, deallir ei fod yn wasanaethau o sawl ongl, gan wasanaethau aml-asiantaeth a all gynnwys darpariaethau o fewn cyrraedd, allgyrraedd, dwys, mentrau mewn argyfwng, yn y gymuned, darpariaeth dydd, gwasanaethau maethu therapiwtig ac eraill y gellir eu disgrifio fel "gofal cynhwysol"².

Rhaid i blant sydd angen mynd i'r ysbyty gael gofal priodol mewn amgylchedd sy'n addas i'w hoed a'u datblygiad³. Fel arfer, caiff derbyniad i uned cleifion allanol CAMHS ei ystyried pan fo'r risg, y cymhlethdod a/neu ddwyster yr angen iechyd meddwl yn annïogel, neu ei reoli'n briodol yn y gymuned⁴.

Mae uned cleifion mewnol CAMHS yn darparu triniaeth a gofal plant o dan 18. Yn gyffredinol, cynigir triniaeth claf mewnol pan fu gofal claf allanol yn aflwyddiannus neu pan fo anawsterau'r teulu mor ddifrifol fel nad oes modd iddynt eu rheoli gartref neu ymdopi ar adeg penodol⁵. Mae'n bosibl y bydd plant neu na fydd plant a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael gofal cleifion mewnol.

Y mathau o wasanaethau a gaiff eu cynnwys yn yr dgolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn yw:

Diogelwch canolig: Gwasanaethau a gynlluniwyd yn benodol i fodloni anghenion plant sydd angen amgylchedd diogel oherwydd eu bod mewn perygl o greu niwed difrifol i'w hunain neu i eraill, ynghyd â'r gallu i ddianc.

Diogelwch isel: Gwasanaethau a ddarperir i'r plant hynny a chanddynt broblemau cymhleth, ac mewn perygl o niweidio'u hunain ac eraill sydd angen mesurau diogelwch amgylcheddol arbenigol arnynt, fel nad oes modd gofalu amdanynt yn ddiogel mewn wardiau cleifion allanol aciwt.

Uned Gofal Dwys Seiciatrïg: Mae Gwasanaethau UGDS yn gofalu am blant a chanddynt aflonyddwch ymddygiadol tymor byr na ellir ei gynnwys o dan wasanaeth aciwt. Cysylltir yr ymddygiad hwn gyda risg difrifol un ai o niwed difrifol i'w hunain neu eraill.

Wardiau aciwt: Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal i blant pan na all gwasanaethau yn y gymuned fodloni eu hanghenion yn ddiogel ac effeithiol oherwydd y risg a/neu gymhlethdod, a lle bo angen gofal niyrso a meddygol parhaus arnynt.

² Kurtz, Z (Ebrill 2009). The evidence base to guide development of tier 4 CAMHS. Department of Health.

³ Department of Health (2004), The mental health and psychological well-being of children and young people.

⁴ GIG Partneriaeth Gwlad yr Haf (Gorffennaf 2010), Information for professionals – access pathway for specialist CAMHS.

⁵ Sergeant, A. (2009) Working within CAMHS in-patient units. Gwasanaeth Cefnogi Cenedlaethol CAMHS.

3 Methodoleg

“Meddu ar wybodaeth gywir, berthnasol a defnyddiadwy, sy’n dangos safon ac ansawdd gwasanaethau, yw’r allwedd hanfodol i gomisiynu.”⁶.

O gofio’r angen i flaenoriaethu’r Adolygiad hwn, yn unol â chais y Prif Swyddog Nyrsio, ymwelwyd â phob plentyn rhwng 3 a 7 ym Mehefin 2019.

Clinigwr o Wasanaeth Gwella Safon Ansawdd Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru a arweiniodd pob ymweliad. Golygai pob ymweliad wneud archwiliad o safon wardiau, gynnal trafodaeth â staff a gwnaed adolygiad unigol ar bob plentyn.

Casglwyd bron i 300 darn o wybodaeth o nodiadau clinigol ar bob plentyn ac fe’u cofnodwyd ar y ddogfen ‘Adolygiad Cynnydd Unigol’ a ddatblygwyd gan y Tîm.

Casglwyd a dadansoddwyd gwybodaeth am yr Adolygiad gan y tîm cefnogi ac fe’i dilyswyd gan gydlynnydd yr Adolygiad. Gwnaed gwaith ymchwil i gefnogi’r Adolygiad gan awdur yr Adolygiad.

Roedd y tîm wedi archwilio materion amgylchedd a gofal penodol.

Gwahoddwyd y comisiynwyr (WHSSC) i gymryd rhan ym mhob ymweliad. Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chysylltwyd â theuluoedd y plentyn, ei ofalwyr a’r tîm gofal lleol cyn yr Adolygiadau.




⁶ Francis, R. (2013). Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry.

4 Rhywedd

Roedd 11 o blant yn derbyn gofal gan wasanaethau a gynhwyswyd yn yr Adolygiad hwn.

Dengys gwaith ymchwil⁷ bod merched o bob oed yn fwy tebygol o gael diagnosis o anhwylder meddyliol na bechgyn. Yn 2014, fe wnaeth 22% o ferched 16–24 oed a 13% o fechgyn hunan adrodd eu bod wedi cael o leiaf un diagnosis o iechyd meddwl yn eu hoes gyfan.

Fel y dangosir yn **Ffigwr 1**, mae chwe phlentyn a gynhwysir yn yr Adolygiad hwn yn ferched a phump yn fechgyn.



● FFIGWR 1: RHYWEDD

⁷ Hamblin, E. (2016) Manifestations and responses Gender and children and young people's emotional. Biwro Cenedlaethol y Plant.

5 Oedran

Amrywiaeth oedran plant a welwyd yn rhan o'r Adolygiad hwn oedd 14 i 17 oed. Cyfartaledd oed y bechgyn a'r merched oedd 16 oed.




6 Darparwyr

Mae yna wyth darparwr ar hyn o bryd yn rheoli wyth ysbyty y tu allan i Gymru, yn gofalu am un ar ddeg o blant sy'n rhan o'r Adolygiad Gofal Cenedlaethol hwn.

Yn 2018, tynnwyd y ddarpariaeth nad yw'n wasanaeth GIG a oedd ar gael yn flaenorol yng Nghymru o'r Fframwaith Cenedlaethol oherwydd materion safon.

Mae pedwar plentyn mewn pedwar ysbyty yn cael eu rheoli gan NHS England a rheolir saith mewn pedwar ysbyty yn y sector y tu allan i'r GIG (tri ysbyty sector preifat ac un ysbyty sector elusennol).

Ceir map a gwtogwyd yn dangos lle mae'r wyth ysbyty isod.




7 Math o ofal

O'r 11 plentyn, gofelir am y mwyafrif sylweddol naw mewn ysbyty diogel a pump mewn uned gofal isel a phedwar mewn uned gofal canolig, fel y dangosir yn **Ffigwr 2**.

Nid yw'r math yma o wasanaethau ar gael yn gyfredol gan GIG Cymru.

Gwasanaethau gofal aciwt yw Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru, a Thŷ Llidiard, gwasanaethau cleifion mewnol CAMHS GIG Cymru, yw gwasanaethau gofal aciwt.

Dim ond dau o blant sy'n rhan o'r Adolygiad hwn y gofelir amdanynt mewn gwasanaethau gofal aciwt (gydag un o'r rhain mewn amgylchedd UGDS).



● FFIGWR 2: MATH O OFAL

8 Llwybr mynediad

Yn gyffredinol, mewn gwasanaethau arbenigol iechyd meddwl ac anableddau dysgu gofal iechyd, mae parhad y gofal yn amrywio i ofal yn y gymuned i ysbytai diogelwch uchel, gydag awdurdodaethau drwy'r gwasanaethau hyn yn gwahaniaethu o ran methodolegau darparu gofal a hierarchaethau gwasanaethau rheoli.

Ar ben llai cyfyngol y gwasanaethau hyn, roedd llawer o'r plant yn byw yn eu cartrefi eu hunain, gyda darpariaeth yn y gymuned yng ngofal tîm aml broffesiynol lleol. Y gwasanaeth diodyn fydd y dewis gofal yn y gymuned i ran fwyaf y plant. Mae rhai plant yn byw mewn llety gofal cymdeithasol.

Yn achos plant sydd angen cefnogaeth fwy uniongyrchol yn ystod adeg o argyfwng, ceir gwasanaethau cymuned penodol sy'n canolbwyntio ar asesiad risg ac ymyriadau yn y tymor byr.

Mae angen gofal cleifion mewnol pan fo'n annigol i ofalu am blentyn yn y gymuned oherwydd symptomau/anghenion aciwt a phan fo angen gofal nyrsio a staff cymorth 24 awr y dydd.

Ceir amrywiaeth o unedau cleifion allanol sy'n cynnig gofal agored, dan glo, neu ddiogel, yn dibynnu ar y gofyniad i gyfyngu ar fynd allan a darparu diogelwch amgylcheddol, perthynol neu weithdrefnol.

Dangosir llwybr gofal personol i'r 11 plentyn sy'n rhan o'r adolygiad hwn a arweiniodd at fod angen gofal mewn gofal cleifion mewnol arbenigol arnynt, yn **Ffigwr 3**.

Derbyniwyd 18% o blant o gartref, a daeth 81% o gyfleuster gwely arall.

	NIFER Y PLANT	DERBYNIWYD Y PLENTYN I'R UNED BRESENNOL (DANGOSIR YN Y GOLOFN CHWITH) O'R LLEOLIADAU ISOD			
		CARTREF GOFAL	UNED CAMHS GIG CYMRU	CARTREF GOFAL DIOGEL	SEFYDLIAD I DROSEDDWYR IFANC
Cyfanswm Canran %		18%	36%	36%	9%

● FFIGWR 3: LLWYBR MYNEDIAD

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/CANFYDDIAD

Er y gallai derbyniadau cyfredol fod yn briodol, dylid ystyried a oes cyfle i ddatblygu llwybrau gofal gwahanol i atal/lleihau derbyniadau rhwng:

- Cartrefi gofal diogel a gofal diogel canolig
- Unedau aciwt CAMHS GIG Cymru a PICU/diogelwch isel

9 Diagnosis

Mae ffurfio a gwneud diagnosis gyda phlant yn gymhleth ac mae angen amser a chyfraniad sawl tîm proffesiynol. Ceir amrywiaeth eang o ddiagnosis posibl, ond er diben yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn, cawsant eu rhoi mewn dau grŵp; 'iechyd meddwl' â 'Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth'.

Anabledd gydol oes yw Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth sy'n effeithio ar sut mae rhywun yn gweld y byd, yn prosesu gwybodaeth ac yn creu perthynas â phobl eraill⁸.

Term am blant a chanddynt anawsterau â lles emosiynol neu ymddygiadol yw Iechyd Meddwl (IM).

Mae gan 82% o'r plant ddiagnosis iechyd meddwl tra bod gan 80% o fechgyn ac 83% o ferched ddiagnosis iechyd meddwl. Mae gan 20% o fechgyn ac 17% o ferched Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth.

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL /ARGYMHELLIAD CANFYDDIAD

Dylem sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried anghenion plant a chanddynt Gyflwr Sbectrwm Awsistiaeth fel rhai gwahanol, er, o bryd i'w gilydd yn rhyng-gysylltu, o'r rheini a chanddynt salwch meddyliol.

⁸ <https://www.childrenssociety.org.uk/mental-health-advice-for-children-and-young-people/autism-and-asc>

10 Deddf Iechyd Meddwl

Mewn sawl achos pan gaiff plant eu trin mewn ysbyty, maent wedi cytuno i fod yno (gelwir yn 'gael eu derbyn yn anffurfiol neu wirfoddol'). Fodd bynnag, ceir achosion lle gellir dal plentyn, gelwir hefyd yn 'adrannu' dan Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) a'u trin, os bydd angen, heb eu cytundeb.

Deddf Iechyd Meddwl (1983), a ddiwygiwyd yn 2007, yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag asesiad, triniaeth a hawliau pobl a chanddynt 'anhwylderau meddyliol'.

Mae gan Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) dros ragor na chan adran ond y rhai perthnasol i'r plant a gynhwysir yn yr Adolygiad Gofal Cenedlaethol hwn yw⁹:

Adran 3: Adran driniaeth yw hon. Awdurdodwyd mai cyfnod cychwynnol 'cadw' yw chwe mis, ond gellir adnewyddu hwn am 6 mis pellach, ac yna am gyfnodau hwy o 12 mis.

Adran 37: Dyma adran a osodwyd gan Lys y Goron wedi i blentyn gael ei gyhuddo o euogfarn nad oes modd rhoi'r unigolyn mewn carchar amdani, ar wahân i lofruddiaeth. Mae'r effaith i bob golwg yr un fath â derbyniad o dan Adran 3, ac fel arfer mae am driniaeth.

Adran 38: Dyma adran a osodwyd gan Lys y Goron neu Lys Ynadon. Fe'i rhoir fel arfer, wedi euogfarn, ond cyn cael dedfryd. Gorchymyn 'interim' yw hwn a gall bara am gyfnod cychwynnol o 12 wythnos ac yna, os oes angen, gael ei ymestyn (hyd at 12 mis). Fel rheol ar gyfer asesiad.

Section 47/49: Dyma adran i blentyn a gafodd ddedfryd gan lys ac a garcharwyd. Mae'r Adran yn trosglwyddo'r plentyn o garchar i ysbyty am driniaeth a golyga bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am ddyfarnu absenoldeb a chaniatáu cael ei ryddhau o'r ysbyty.

⁹ Gwybodaeth gyffredinol am yr adran yn http://www.mentalhealthlaw.co.uk/Summary_of_the_detaining_sections

Mae **Ffigwr 4** yn dangos bod 10 o'r plant yn cael eu cadw o dan adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Cedwir pob plentyn mewn gofal diogel o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (fel sy'n arferol gydag oedolion). Y gorchymyn cadw mwyaf cyffredin yw Adran 3.

NIFERY PLANT	ANFFURFIOL	ADRAN 3	ADRAN 37	ADRAN 38	ADRAN 47/49
	Cyfanswm Canran %	9%	55%	9%	9%

● FFIGWR 4: STATWS DEDDF IECHYD MEDDWL

11 Hyd yr Arhosiad Cyfredol


Cyfrifir hyd arhosiad y rhan fwyaf o achosion ond pan fo'r unigolyn yn cael ei ryddhau. Ond er dibyn yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn, fe'i cyfrifwyd o ddyddiad mynediad y darparwr presennol tan 3 Mehefin 2019.

Dangosir hyd pob mynediad cyfredol mewn wythnosau, gyda'r darparwr cyfredol ar gyfer yr 11 o blant, yn **Ffigwr 5**.

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd:

- Cyfartaledd hyd mynediad cyfredol i blant yw 19 wythnos.

- Yn achos plant mewn gofal canolig, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 18 wythnos.
- Yn achos plant mewn gofal diogel isel, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 33 wythnos.
- Yn achos plant mewn gofal aciwt, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 6 wythnos.
- Yn achos bechgyn, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 26 wythnos ac i ferched, 12 wythnos.



- Yn achos plant mewn gofal **canolig**, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 18 wythnos.
- Yn achos **bechgyn**, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 26 wythnos.
- Yn achos plant mewn gofal **diogel isel**, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 33 wythnos.
- I **ferched**, 12 wythnos.
- Yn achos plant mewn gofal **aciwt**, hyd cyfartalog y mynediad cyfredol yw 6 wythnos.

● FFIGWR 5: HYD MYNEDIAD* CYFREDOL MEWN WYTHNOSAU (POB LLINELL YN DYNODI PLENTYN UNIGOL)

*SYLWER: Gall hyd arhosiad amrywio'n fawr iawn yn ddibynnol ar anghenion y plant, eu hymateb i driniaeth, y cymhlethdod a/neu y risg. Gall fod angen asesiadau ar blant sy'n cymryd wythnosau neu ymyriadau sy'n cymryd sawl mis. Yn achos rhai plant ar Adrannau penodol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, y Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd yn penderfynu pryd fydd plentyn yn cael ei ryddhau.

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL

Mae hyd arhosiadau plant, yn arbennig mewn gofal diogel isel i bob golwg yn hir. Dylem sicrhau bod nad yw pob plentyn yn aros yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol, er mwyn darparu asesiad, gofal a thriniaeth benodol.

12 Cydlyniad y Gofal

Trefn o gydlynu gofal yw helpu unigolyn a chanddo salwch meddwl i gyrchu amrywiaeth o wasanaethau gwahanol mewn modd sy'n eu helpu nhw i wella, sy'n gweithio tuag at eu hadferiad. Golyga ymyriadau rhwng clinigwyr gwahanol a darparwyr iechyd gofal, y plentyn, ei ofalwyr, aelodau'r teulu a phobl eraill bwysig.

Cynigia Rhan 2 o Fesur Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, bod y cydlynnydd gofal yn ganolog i lwybr yr unigolyn drwy wasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Disgwyliad y byddai gan blentyn sydd wedi cael ei roi mewn lleoliad ysbyty gydlynnydd gofal, neu rywun o wasanaethau lleol a fyddai'n cynnal cyswllt rheolaidd â gwasanaethau ac yn gofalu y caiff ei anghenion eu bodloni.

Yn achos yr 11 plentyn a welwyd fel rhan o'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn:

- nid oedd gan ddau blentyn enw cydlynnydd gofal lleol wedi ei gofnodi.
- nid oedd gan naw plentyn enw cydlynnydd gofal lleol wedi ei gofnodi.
- O'r plant hyn, roedd gan bedwar ohonynt nyrs CAMHS yn gydlynnydd gofal.
- O'r plant hyn, roedd gan ddau blentyn weithiwr cymdeithasol yn gydlynnydd gofal iddynt.
- O'r plant hyn, roedd gan dri rywun proffesiynol arall fel meddyg meddygol neu seicolegydd yn gydlynnydd gofal iddynt.

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/ CANFYDDIAD

Rhaid sicrhau bod gan bob plentyn gydlynnydd gofal, reolwr gofal neu rywun proffesiynol i gynnal cyswllt rheolaidd â gwasanaethau. Rhaid i'r bobl hyn sicrhau y bodlonir holl ofynion y plentyn, eu bod yn gweithredu fel eiriolwr ac yn sicrhau y bydd unrhyw gwyn neu ddigwyddiad yn cael ei archwilio a bod unrhyw ymyriad cyfyngol yn angenrheidiol a chymesur.

13 Cynllunio Gofal

Cynllun ysgrifenedig yw Cynllun Gofal a Thriniaeth sy'n ymdrin â'r hyn mae plant yn ceisio ei gyrraedd mewn meysydd penodol o'u bywydau, a pha gymorth y bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn eu darparu i gyflawni hyn.

Yn achos yr 11 plentyn a welwyd yn rhan o'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn:

- roedd gan bob un plentyn Gynllun Triniaeth a Gofal yn ei le.
- enwodd bob un o'r Cynlluniau Triniaeth a Gofal holl anghenion iechyd y plentyn.
- Yn achos naw o'r Cynlluniau Triniaeth a Gofal roedd tystiolaeth yn dangos y bu'r plentyn yn rhan o ddatblygiad y cynllun.
- Yn achos naw o'r Cynlluniau Triniaeth a Gofal gellid gweld y bu'r adolygiad diweddar yn glir a chadarn.
- Yn achos dim un Cynllun Triniaeth Gofal, gellid gweld na fu'r tîm gofal lleol yn rhan o ddatblygu'r cynllun.

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/ CANFYDDIAD

Dylem sicrhau bod pob Cynllun Gofal a Thriniaeth yn cael ei gynhyrchu ar y cyd gyda'r plentyn a'u hadolygu'n rheolaidd.

Rhaid i dimau gofal lleol sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn datblygu ac adolygu'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

14 Canlyniadau Comisiynu

Mae NCCU yn cydnabod y gwaith ymchwil sy'n bodoli eisoes, a gynhyrchwyd ynghyd â defnyddwyr gwasanaethau, clinigwyr sefydliadau gwirfoddol ac academyddion a leisiodd bryderon bod mynd ar drywydd canlyniadau cyfyngedig iechyd a lles, o fewn modelau adfer, yn tynnu oddi ar anghenion yr unigolyn ac yn arwain at arddel dulliau 'mecanyddol, yr un fath bob tro i ofal.¹⁰

Beth bynnag, mae'n gonglfaen o gomisiynu da, fel bo gwasanaethau yn eu deall yn union yr hyn a ddisgwylir ganddynt, ac yn gallu cyflwyno ymyriadau amserol, effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn amgylcheddau o ansawdd a gyda staff medrus, profiadol.

Felly, pan fyddwn yn gwneud yr Adolygiadau Iechyd Cenedlaethol hyn, nid ydym yn archwilio canlyniadau clinigol unigol ond yn penderfynu'r 'canlyniadau comisiynu' a fwriadwyd gan dîm comisiynu a/neu dîm gofal lleol o adran derbyniadau'r ysbyty.

Caiff y 'canlyniadau comisiynu' hyn eu grwpio i'r saith maes canlynol:

- Bydd yr ysbyty yn lleihau arwyddion y plentyn o drais, neu ymddygiadau ymosodol sy'n herio eraill.
- Bydd yr ysbyty yn lleihau rheolaeth y plentyn o ddigwyddiadau hunan niweidiol neu ideoleg o hunan niwed.
- Bydd yr ysbyty yn lleihau dibyniaeth y plentyn ac yn hyrwyddo ei annibyniaeth drwy sgiliau bywyd.

- Bydd yr ysbyty yn grymuso'r plentyn drwy obaith, sylw, ymagwedd gadarnhaol ac ymyriadau seico-gymdeithasol.
- Bydd yr ysbyty yn lleihau symptomau iechyd meddwl y plentyn drwy ffarmacoleg.
- Bydd yr ysbyty yn llwyddo i gael canlyniadau cadarnhaol i'r plentyn drwy therapïau seicolegol penodol.
- Bydd yr ysbyty yn lleihau'r perygl o niwed i'r plentyn yn sgil nam gwybyddol.

Gall nifer y canlyniadau fesul plentyn, ond nid o angenrheidrwydd, fod yn arwydd o gymhlethdod, gyda'r plentyn angen nifer fawr o ganlyniadau wrth gael ei dderbyn i ysbyty, a chanddo anghenion helaeth, sylweddol.

Mae **Ffigwr 6** yn dangos y 'canlyniadau comisiynu' gofynnol ar fynediad i wasanaeth CAMHS yn unol â rhywedd a'r math o ofal.

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd:

- Mai'r nifer lleihaf o ganlyniadau yn achos plentyn unigol oedd tri.
- Mai'r nifer fwyaf o ganlyniadau yn achos plentyn unigol oedd saith.
- Roedd gan fechgyn ar gyfartaledd, pump canlyniad yr un.
- Ar gyfartaledd, roedd gan ferched chwe chanlyniad yr un.
- Y canlyniadau a chanddynt y ganran uchaf ar draws pob rhyw a math o ofal oedd 'grymuso drwy obaith, agwedd gadarnhaol ac ymyriadau seico-gymdeithasol' ac roedd pob un o'r plant angen y canlyniad hwn.

¹⁰ Kings Fund (2019) Outcomes for Mental Health Services, What really matters?

- Y canlyniad gyda'r ganran isaf ar draws pob rhyw a math o ofal oedd 'lleihau'r risg o niwed oherwydd perygl o niwed i'r plentyn', gydag un plentyn angen y canlyniad hwn. Cysylltir y canlyniad hwn yn arferol gyda phobl a chanddynt anableddau deallusol.
- Roedd angen ysbyty ar naw plentyn er mwyn lleihau arwydd y plentyn o drais, ymosododd neu ymddygiadau sy'n herio eraill. Roedd pedwar bachgen a phum merch angen y canlyniad hwn.
- Roedd naw plentyn angen yr ysbyty i leihau/reoli digwyddiadau hunan-niweidio'r plentyn neu ideoleg o hunan-niweidio.
- Roedd tri o'r bechgyn a chwe merch angen y canlyniad hwn.
- Roedd angen yr ysbyty ar naw er mwyn 'lleihau symptomau iechyd meddwl y plentyn drwy ffarmacoleg'. Roedd tri o'r bechgyn a chwe merch angen y canlyniad hwn.
- Roedd angen ysbyty ar naw plentyn er mwyn i'r plentyn gael canlyniadau cadarnhaol drwy therapïau seicolegol penodol. Roedd pedwar bachgen a phum merch angen y canlyniad hwn.

		LLEIHAI TRAI, YMDDYGIAD YMOSODOL, YMDDYGIADAU HERIOL	LLEIHAI/RHEOLI HUNAN-NIWEIDIO, IDEOLEG HUNAN-NIWEIDIO	LLEIHAI DIBYNIETH A HYRWYDDO ANNIBYNIETH DRWY SGILIAU BYWYD	GRYMU DRWY OBAITH, SYLW CADARNAOL, YMYRIADAU SEICOLEGOL	LLEIHAI SYMPTOMAU SALWCH MEDDWL DRWY FFARMACOLEG	SICRHAU CANLYNIADAU CADARNAOL DRWY THERAPIAU SEICOLEGOL PENODOL	LLEIHAI PERYGL O NIWED I'W HUNAIN OHERWYDD NATUR AGORED I NIWED YN SGIL NAM GWYBYDDOL
B	5	4	3	2	5	3	4	
M	6	5	6	5	6	6	5	1
% MEWN UNED DDIOGEL GANOLIG GYDA CHANLYNIAD		75%	75%	50%	100%	50%	100%	
% MEWN UNED DDIOGEL ISEL		100%	100%	60%	100%	100%	100%	20%
% ACIWT/PICU GYDA CHANLYNIAD		50%	50%	100%	100%	100%		
CYFANSWM GYDA CHANLYNIAD		9	9	7	11	9	9	1
% Y CYFANSWM GYDA CHANLYNIAD		82%	82%	64%	100%	82%	82%	9%

● FFIGWR 6: CANLYNIADAU COMISIYNU SY'N ANGENRHEIDIOL AR FYNEDIAD

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/ CANFYDDIAD

- Dylem sicrhau y cytunwyd ar gyfres o ganlyniadau cadarn rhwng y comisiynydd a'r darparwr ym mhob lleoliad.
- Dylem sicrhau y caiff y cynnydd tuag at fodloni'r canlyniadau hyn eu monitro'n agos, fel y gallwn sicrhau bod pob taith drwy ofal plentyn a leolwyd yn ysbytai CAMHS yn digwydd mor gyflym â phosibl.

15 Therapi

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau sy'n sail i'r rheswm dros fod angen mynediad a bodloni gofynion cymhleth plant a leolwyd yn y cyfleusterau gofal hyn, disgwyli'd y defnyddir tîm aml-ddisgyblaethol helaeth.

Mae aelodau'r tîm hwn yn ffurfio, yn asesu, yn trin ac yn adolygu ymyriadau clinigol, therapiwtig a seicogymdeithasol a dulliau i ddarparu gofal effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn diwylliant o sylw cadarnhaol, a gobeithiol.

Dengys **Ffigwr 7** nifer y plant sy'n derbyn un neu fwy o sesiynau therapi fesul rhyw, math o ofal a math o staff therapi.

Y nifer fwyaf theoretig o therapyddion a oedd yn ymwneud â phlentyn unigol gan ddefnyddio set ddata'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol yw naw, er y byddai'n anarferol iawn i'r nifer yma

o therapyddion ymwneud ag achos yn unigol. Y nifer a ddisgwyli'r mewn gofal cleifion mewnol CAMHS yw tua tri neu bedwar. Er mae hyn yn ddibynnol iawn ar anghenion y plentyn.

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn:

- Y nifer isaf o therapyddion oedd yn ymwneud â gofal plentyn oedd un.
- Y nifer fwyaf o therapyddion oedd yn ymwneud â gofal plentyn oedd chwech.
- Nifer cyfartalog y therapyddion oedd yn ymwneud â gofal plentyn oedd tri.
- Ar gyfartaledd, roedd gan fechgyn dri therapydd yn ymwneud â'u gofal.
- Ar gyfartaledd, roedd gan ferched bedwar therapydd yn ymwneud â'u gofal.
- Y grwpiau staff therapi a oedd fwyaf aml yn ymwneud â'u gofal oedd Therapyddion Galwedigaethol (naw achos) a Seicolegwyr Clinigol (wyth achos).

		SEICOLEG GLINIGOL/ FFORENSIG	CYNORTHWYDD SEICOLEG	THERAPYDD NYRS/ CWNSLYDD	THERAPYDD GALWEDIGAETHOL	CYNORTHWYDD THG/HT	GWEITHWR CYMDEITHASOL	THERAPI IAITH A LLEFERYDD	THERAPI GAN SEICIATRYDD	THERAPI CLINIGOL ARALL
B	5	3	2		4	3	1		2	2
M	6	5	2	1	5	4	2	1		1
% DIOGEL GANOLIG		50%	75%	25%	100%	75%	50%		50%	50%
% DIOGEL ISEL		80%	20%		60%	60%	20%	20%		20%
% ACIWT/PICU		100%			100%	50%				
CYFANSWM		8	4	1	9	7	3	1	2	3
%		73%	36%	9%	82%	64%	27%	9%	18%	27%

● FFIGWR 7: NIFER Y PLANT SY’N DERBYN UN NEU FWY O SESIYNAU THERAPI YN UNOL Â’R MATH O THERAPYDD

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/ CANLYNIAD

Dylem sicrhau bod pob darparwr yn defnyddio tîm aml-broffesiynol i ffurfio, asesu, trin ac adolygu ymyriadau a dulliau clinigol, therapiwtig a seico-gymdeithasol fydd yn darparu gofal effeithiol sy’n seiliedig ar dystiolaeth mewn diwylliant roi sylw cadarnhaol a gobaith i bob plentyn.

16 Gofal Iechyd Sylfaenol a Gofal Brys

Er bod y plant yn derbyn gofal a thriniaeth mewn lleoliad ysbyty, ceir gofyniad o hyd i sicrhau mynediad at ofal sylfaenol rhag ofn eu bod angen triniaeth gan Feddyg Teulu, deintydd neu optegydd. Hefyd, efallai bod angen gofal brys neu mewn argyfwng gan ysbyty, Meddyg Teulu neu ddeintydd arnynt.

Mae **Ffigwr 8** nifer y plant gafodd wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, neu roedd angen mynediad heb ei gynllunio i wasanaethau gofal mewn argyfwng arnynt, tra derbyniwyd nhw i'w hysbyty cyfredol.

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn:

- Roedd un ar ddeg plentyn angen un neu fwy o wasanaethau sylfaenol.
- Roedd pedwar plentyn angen un neu fwy o wasanaethau gofal brys.
- Nid oedd yr un bachgen, ond roedd pedair merch angen un neu fwy o wasanaeth mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.
- Nid oedd yr un bachgen, ond roedd tair merch angen gofal Meddyg Teulu ar frys.
- Roedd angen ymyriadau brys ar bob plentyn mewn gofal diogel isel, ond nid oedd yr un ohonynt angen ymyriad gan y rhai oedd yn derbyn gofal diogel canolog neu aciwt.

		GOFAL SYLFAENOL			GOFAL BRYS		
		GWIRIAD MT/APWYNTIAD ARFEROL	GWIRIAD DEINTYDD	GWIRIAD OPTEGYDD	ROEDD ANGEN TRINIAETH DDEINTYDDOL AR FRYS AR Y PLENTYN	ROEDD ANGEN MYNID TRADRAN DAMWENIAU AC ACHOSION BRYS AR Y PLENTYN	ROEDD Y PLENTYN ANGEN TRINIAETH MT AR FRYS
B	5	5	4	4			
M	6	5	5	1	1	4	3
% CANOLIG		100%	75%	75%			
% ISEL		100%	100%	40%	20%	80%	60%
% ACÍWT		50%	50%				
% BECHGYN		100%	75%	75%			
% MERCHED		100%	100%	40%	20%	80%	60%
CYFANSWM		10	9	5	1	4	3
%		91%	82%	45%	9%	36%	27%

● FFIGWR 8: CYRCHU GOFAL IECHYD SYLFAENOL A/NEU AR FRYS

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/ CANFYDDIAD

Dylem sicrhau y gall pob plentyn gael gwasanaethau iechyd gofal sylfaenol yn rheolaidd, yn ôl y gofyn. Dylem sicrhau bod amgylcheddau gofal yn ddiogel, er mwyn lleihau'r angen i gael gwasanaethau gofal mewn brys. Dylem sicrhau y gall pob plentyn gael gofal mewn argyfwng pan fo angen.

17 Lefelau Gofal

Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ddeddf yng Nghymru ar 21 Mawrth 2016. Mae'n gofyn ar i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau yn cyflwyno'r dulliau/prosesau y disgwylir i sefydliadau GIG benderfynu lefelau staffio nyrsys sy'n briodol a diogel bob amser. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau nyrsio a ddarperir gan y GIG yn uniongyrchol a gwasanaethau nyrsio a gomisiynwyd gan y GIG yng Nghymru. Er mwyn cefnogi'r lefelau staffio priodol, mae'n hanfodol deall dwysedd y gofal angenrheidiol i garfan y cleifion a reolir gan y grŵp staffio.

Mae'r Uned Gofal Critigol Niwrolegol wedi datblygu 3 'Lefel Gofal' sy'n mesur gofal a dwysedd cyfraniad staff gan blant unigol, er mwyn sicrhau:

Diogelwch: Y Lefelau Gofal angenrheidiol i reoli diogelwch plant neu leihau'r posibilrwydd o'r plant yn niweidio cymheiriaid neu staff. Mae'r lefel yma hefyd yn dynodi'r cyfraniadau gofal angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y plentyn gyrchu'r gofal yn y gymuned yn rheolaidd a diogel.

Gweithgaredd: Dyma'r Lefelau Gofal angenrheidiol i sicrhau bod gofal personol y plentyn, gweithgareddau cryfhau, anghenion maetheg yn cael eu bodloni. Mae hefyd yn dynodi Lefel y Gofal angenrheidiol er mwyn annog annibyniaeth a lleihau dibyniaeth.

Meddyginiaeth: Y Lefelau Gofal angenrheidiol i sicrhau bod plant yn gytunol ag unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd iddynt neu drefn gofal iechyd ac yn cael goruchwyliad/ymyrraeth gan aelod staff cymwys a phrofiadol.

Mae sgoriau'r tri maes yn amrywio o 5 (y lefel uchaf angenrheidiol y dwysedd staff sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y plentyn) i 1 (y lefel isaf y dwysedd staff sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y plentyn).

Dengys **Ffigwr 9A** ganran y plant ym mhob Adran o bob Lefel Gofal ar draws y parth **Diogelwch**. Sylwer, gall plant gyrchu gwasanaethau sawl adran ar fwy nag un Lefel.

Dengys yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn mai **Lefel 3: Risg posibl o beri niwed i'w hunain ac mae angen arsylwad ysbeidiol a ragnodwyd yw'r Adran â'r nifer fwyaf o blant (4).**

● FFIGWR 9A: DIOGELWCH

LEFEL Y GOFAL: DIOGELWCH		
LEFEL 5	Arsylwi/cefnogaeth barhaus – 1:1 neu fwy uwch am 24 oherwydd perygl o niwed i'w hun	9%
	Arsylwi/cefnogaeth barhaus – 1:1 neu fwy am 24 oherwydd perygl o niwed i eraill neu gan eraill	
	Arsylwi/cefnogaeth barhaus – 1:1 neu fwy am 24 oherwydd natur agored i niwed neu anallu i gyfathrebu	
LEFEL 4	Arsylwi yn yr uned yn ystod cyfnodau penodol neu fannau penodol (yn ystod y dydd/nos/mannau cymunedol / ystafell wely) ayb 1:1 neu fwy oherwydd perygl o niwed i'w hunain	
	Arsylwi yn yr uned yn ystod cyfnodau penodol neu fannau penodol (yn ystod y dydd/nos/mannau cymunedol / ystafell wely) ayb 1:1 neu fwy oherwydd perygl o niwed i eraill neu gan eraill	
	Arsylwi yn yr uned yn ystod cyfnodau penodol neu fannau penodol (yn ystod y dydd/nos/mannau cymunedol / ystafell wely) ayb 1:1 neu fwy uwch oherwydd natur agored i niwed neu anallu i gyfathrebu	18%
LEFEL 3	Risg posibl o niwed i'w hun ac angen arsylwi rhagnodedig ysbeidiol	36%
	Risg posibl o niwed i eraill neu gan eraill ac angen arsylwi rhagnodedig ysbeidiol	27%
	Mynediad at y gymuned ac angen cymorth 1:1 neu fwy oherwydd risg i'w hunain/eraill	9%
LEFEL 2	Mynediad at y gymuned wedi ei hebrwng yn unig	9%
	Unigolyn angen goruchwyliaeth cydymaith	
	Angen goruchwyliaeth gyffredinol / isafswm o oruchwyliaeth, cefnogaeth barhaus, tawelwch meddwl neu ymyrraeth	
LEFEL 1	Mynediad at y gymuned heb ei hebrwng	9%
	Nid oes angen goruchwyliaeth benodol yn yr uned	

Dengys **Ffigwr 9B** ganran y plant ym mhob Adran o bob Lefel Gofal ar draws y parth Gweithgaredd. Sylwer, gall plant gyrchu gwasanaethau sawl adran ar fwy nag un Lefel.

Dengys yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn mai **Lefel 1: Hunan Ofalu/Annibynnol** yw'r Adran gyda'r nifer uchaf o blant (8).

● FFIGWR 9B: GWEITHGAREDD

LEFEL Y GOFAL: GWEITHGAREDD		
LEFEL 5	Yn gwbl ddibynol ar gyfer pob gweithgaredd i fyw gan na all ofalu am ei ofal ei hun	
LEFEL 4	Angen gofal gan o leiaf 2 staff ar gyfer bron pob gweithgaredd byw bob dydd, gwaith codi a chario, ail-leoli	
LEFEL 3	Angen gofal 1 aelod staff ar gyfer bron pob gweithgaredd byw bob dydd, gwaith codi a chario, ail-leoli	
	Angen gofal gyda gofal personol yn para rhagor na 30 munud	
	Angen cymorth â symudedd, ail-leoli gydag 1-2 staff a defnydd o gymorthyddion	
LEFEL 2	Angen cymorth â pheth gweithgareddau byw bob dydd	
	Unigolyn angen cymorth gyda'r rhan fwyaf neu bob gweithgaredd byw bob dydd	27%
	Angen cymorth gyda bwyta neu reoli hylifau	9%
LEFEL 1	Unigolyn angen atgoffa gyda rhai gweithgareddau byw bob dydd	9%
	Gofalu amdano ei hun / annibynnol	73%

Dengys **Ffigwr 9C** ganran y plant ym mhob Adran o bob Lefel Gofal ar draws y parth **Meddyginiaeth**. Sylwer, gall plant gyrchu gwasanaethau ar fwy nag un adran ar fwy nag un Lefel.

Dengys yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn mai **Lefel 2: Cymorth yn cymryd meddyginiaeth (atgoffa a/neu gweinyddir gan staff)** yw'r Adran gyda'r nifer uchaf o blant (9).

● FFIGWR 9C: MEDDYGINIAETH

LEFEL Y GOFAL: MEDDYGINIAETH		
LEFEL 5	Monitro sy'n creu archoll fach, dripiâu, system IVI	9%
LEFEL 4	System feddyginiaeth gymhleth angen newid cyson/bwydo PEG	
LEFEL 3	Meddyginiaeth gymhleth angen goruchwyliaeth nyrs/clinigol	9%
	Unigolyn angen cymorth i gymryd meddyginiaeth (rhagor na 30 munud)	
	Rhagnodwyd PRN meddyginiaeth gwrthseicotig / hypnotig yn ystod y 7 diwrnod diwethaf	
LEFEL 2	Cymorth i gymryd meddyginiaeth (atgoffa a / neu gweinyddwyd gan staff)	82%
LEFEL 1	Cymryd meddyginiaeth ei hun er mwyn rheoli'r symptomau	

Er mwyn ffurfio cynrychiolaeth gyffredinol o Lefel Gofal, cyfrifwyd Lefel uchaf y gofal ym mhob 3 pharth i bob plentyn.

Dengys **Ffigwr 10** y cyfanswm o'r Lefelau o Ofal ar draws y meysydd Diogelwch, Gweithgareddau a Meddyginiaeth ar gyfer yr holl blant.

- Y lefelau gofal cyfartalog i bob plentyn oedd **3** (Diogelwch, risg posibl o niwed i'w hunain/eraill ac angen arsylwi rheolaidd), **1** (Gweithgaredd, gofal diogel neu angen atgoffa'n unig), **2** (Meddyginiaeth – angen atgoffa'n unig).
- Y lefelau gofal cyfartalog i blant sy'n fechgyn oedd **3** (Diogelwch, risg posibl o niwed i'w hunain/eraill ac angen arsylwi rheolaidd), **1** (Gweithgaredd, gofal diogel neu angen atgoffa'n unig), **2** (Meddyginiaeth – angen atgoffa'n unig).
- Y lefelau gofal cyfartalog i blant sy'n fechgyn oedd **4** (Diogelwch, Risg posibl o niwed i'w hunain/eraill ac angen arsylwi rheolaidd), **1** (Gweithgaredd, gofal diogel neu angen atgoffa'n unig), **3** (Meddyginiaeth – angen goruchwyliaeth nyrs hyfforddedig neu angen cymorth i atgoffa).

- Y lefelau gofal cyfartalog i blant y gofelir amdanynt mewn amgylchedd diogel canolog oedd **3** (Diogelwch, risg posibl o niwed i hunain/eraill ac angen arsylwi rheolaidd), **1** (Gweithgaredd, gofal diogel neu angen atgoffa'n unig), **2** (Meddyginiaeth – angen atgoffa'n unig).
- Y lefelau gofal cyfartalog i blant y gofelir amdanynt mewn amgylchedd diogel isel oedd **4** (Diogelwch, risg posibl o niwed i'w hunain/eraill ac angen arsylwi rheolaidd), **1** (Gweithgaredd, gofal diogel neu angen atgoffa'n unig), **2** (Meddyginiaeth – angen atgoffa'n unig).
- Y lefelau gofal cyfartalog i blant mewn amgylcheddau aciwt (+PICU) oedd **3** (Diogelwch, Risg posibl o niwed i'w hunain/eraill ac angen arsylwi rheolaidd), **2** (Gweithgaredd – angen rhywfaint o gymorth), **4** (trefn gymhleth).

	DIOGELWCH LEFEL Y GOFAL	GWEITHGAREDDAU LEFEL Y GOFAL	MEDDYGINIAETH LEFEL Y GOFAL
B	13	6	10
M	19	9	16

● FFIGWR 10: LEFELAU CYNyddOL O OFAL

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELIAD/ CANFYDDIAD

Dylem sicrhau yr archwiler y materion sy'n dilyn:

- Diogelwch: Roedd pob plentyn ond dau yn yr ystod a ragwelwyd o ran math y gofal, gydag un yn is na'r hyn a ddisgwyliwyd ac un yn uwch.
- Gweithgareddau: Roedd pob plentyn o fewn yr ystod oedran a ragwelwyd o ran math y gofal.
- Meddyginiaeth: Roedd pob un ond un plentyn yn yr ystod a ragwelwyd o ran math y gofal, gydag un yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd.

18 Ymddygiadau Risg

O bryd i'w gilydd, bydd plant mewn ysbytai CAMHS yn arddangos ymddygiadau sy'n rhoi eu hunain a/neu eraill mewn perygl o niwed. Efallai eu bod yn gadael yr ysbyty heb roi gwybod i staff, eu bod yn ymddwyn mewn modd ymosodol, yn ymddwyn yn amhriodol, yn rhywiol tuag at gymheiriaid neu staff ac yn ceisio niweidio plant eraill, staff, eiddo neu eu hunain.

Mae'n bosibl bod plant a gyfeiriwyd at CAMHS yn ymddwyn yn ymosodol yn fwy aml a difrifol o'u cymharu â'u cymheiriaid na chawsant eu cyfeirio. Cysylltwyd ymosodedd yn gadarn â pherthnasau cymheiriaid gwael ac ymddygiad rhag-gymdeithasol isel¹¹.

Gall ffactorau amgylcheddol a chyd-destunol ddylanwadu ar ymddygiad treisgar ac ymosodol ar wardiau¹². Gall polisïau a chanllawiau aneglur, gorboblogi, cynllun gwael wardiau, staff amhrofiadol, cyfraddau cadw staff gwael a diffyg rhannu gwybodaeth oll gyfrannu at ymddygiad treisgar neu ymosodol^{13, 14}. Mae astudiaethau hefyd wedi dangos cysylltiad rhwng ymddygiad ymosodol a thrais, a nodweddion staff yn cynnwys arddulliau negyddol, rhyngweithiol, ymddygiad pryfoclyd ac awdurdodol, a sgiliau cyfathrebu gwael^{15, 16}.

Yr ymddygiadau risg a ddarluniwyd gan set data'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol yw:

- Bu'r plentyn yn eiriol ymosodol tuag at staff neu gymheiriaid.
- Bu'r plentyn yn difrodi eiddo'n bwrpasol.
- Dangosodd y plentyn ymddygiad bygythiol tuag at staff neu gymheiriaid.
- Bu'r plentyn yn dreisgar tuag at eraill ond ni achoswyd niwed corfforol.
- Bu'r plentyn yn dreisgar tuag at eraill gan achosi niwed corfforol.
- Bu i'r plentyn hunan-niweidio yn fwriadol.
- Dihangodd y plentyn o'r ysbyty/absenoldeb.
- Bu'r plentyn yn rhywiol amhriodol tuag at staff neu gymheiriaid.
- Dioddefodd y plentyn niwed gan gymheiriaid oherwydd ei fod yn agored i niwed ei hun.

¹¹ Connor DF, McLaughlin TL. (2006) Aggression and diagnosis in psychiatrically referred children. *Child Psychiatry Hum Dev*.

¹² Duxbury J (2002) An evaluation of staff and patient views of and strategies employed to manage inpatient aggression and violence on one mental health unit: A pluralistic design. *Journal of Psychiatric and Mental Health Nursing*; 9: 325–337.

¹³ The short-term management of disturbed/violent behaviour in psychiatric in-patients and emergency department guidelines. (2015) NICE.

¹⁴ Archwiliad Cenedlaethol o Drais. (2005) Y Comisiwn Gofal Iechyd.

¹⁵ Duxbury J, Whittington R (2005) Causes and management of patient aggression and violence: staff and patient perspectives. *Journal of Advanced Nursing*; 50: 469–478.

¹⁶ Glover R (2005) Adran arbennig ar neilltuo ac atal: Sylwebaeth: reducing the use of seclusion and restraint: A NASMHPD priority. *Psychiatric Services*; 56: 1141–1142.

Catgoreiddiwyd yr ymddygiadau hyn yn unol â dwysedd/effaith:

- **Dwysedd isel**, nad yw'n achosi dim niwed corfforol/gofid emosiynol amlwg i blentyn, cymheiriaid neu staff. Fawr ddim difrod i eiddo. Fawr o darfu ar awyrgylch ward neu brosesau.
- **Dwysedd canolig**, sy'n achosi niwed, gofid emosiynol i blentyn, cymheiriaid neu staff. Newid canolig i eiddo. Tarfu ar awyrgylch ward neu drefn arnynt.

- **Dwysedd Uchel**, yn achosi niwed corfforol /gofid emosiynol difrifol i blentyn, cymheiriaid neu staff. Difrod sylweddol i eiddo. Tarfu sylweddol ar awyrgylch ward neu dref arnynt.

Dengys **Ffigwr 11** dwysedd ac amledd ymddygiadau risg a ddangoswyd gan bob plentyn. Dangosir yr wybodaeth mewn grid effaith cyffredinol mewn dwysedd/amledd cod amryliw, fel y dangosir isod:

DIBWYS	ISEL	ISEL	CANOLIG	CANOLIG
ISEL	ISEL	CANOLIG	CANOLIG	SYLWEDDOL
ISEL	CANOLIG	CANOLIG	SYLWEDDOL	CATASTROPHIG

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn:

- Bu naw plentyn yn ymosodol eiriol – pump o'r bechgyn a phedair merch. Bu pedwar plentyn yn ymosodol eiriol yn ddiweddar, dau fachgen a dwy ferch.
- Bu i bum plentyn ddifrodi eiddo'n bwrpasol, roedd tri bachgen a tair merch wedi difrodi eiddo yn ddiweddar, dau fachgen ac un ferch.
- Bu i wyth plentyn arddangos ymddygiad heriol tuag at staff neu gymheiriaid. Bu i bedwar plentyn ddangos ymddygiad heriol tuag at staff neu gymheiriaid yn.
- Dangosodd saith plentyn ymddygiad treisiol ond ni achoswyd niwed corfforol. Dangosodd tri phlentyn ymddygiad treisiol ond ni achoswyd niwed corfforol yn ddiweddar.
- Dangosodd saith plentyn ymddygiad treisiol ac achoswyd niwed. Dangosodd tri phlentyn, sef dau fachgen ac un ferch ymddygiad treisgar ac achosi niwed corfforol yn ddiweddar.
- Roedd deg plentyn wedi hunan-niweidio yn fwriadol. Roedd pedwar plentyn wedi hunan-niweidio ynfwriadol yn ddiweddar.
- Roedd tri phlentyn, sef un bachgen a dwy ferch wedi dianc o'r ysbyty pan oeddent ar absenoldeb. Roedd un plentyn, sef merch wedi dianc o'r ysbyty tra yr oedd hi ar absenoldeb.
- Bu dau blentyn yn rhywiol. Bu un plentyn yn rhywiol amhriodol yn ddiweddar, 1 bachgen a dim un ferch.
- Bu chwe phlentyn yn dioddef niwed gan eraill oherwydd eu natur agored i niwed. Bu un plentyn ddioddef niwed gan eraill oherwydd ei natur agored i niwed yn.

● FFIGWR 11

BU'R PLENTYN YN YMOSODOL YN EIRIOL TUAG AT STAFF NEU GYMHEIRIAID		DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)		0					
	DWYSEDD ISEL		1		1	1	
	DWYSEDD CANOLIG		1				1
	DWYSEDD UCHEL						
Merched (6)		2					
	DWYSEDD ISEL			1			1
	DWYSEDD CANOLIG		1				
	DWYSEDD UCHEL		1				

SYLWER Ystyr 'yn ddiweddar' yw ymhen 90 niwrnod o ymweliad Tîm yr Adolygiad.

MAE'R PLENTYN WEDI DIFRODI EIDDO AR BWRPAS		DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)		2					
	DWYSEDD ISEL					1	
	DWYSEDD CANOLIG			1			
	DWYSEDD UCHEL		1				
Merched (6)		4					
	DWYSEDD ISEL			1			
	DWYSEDD CANOLIG					1	
	DWYSEDD UCHEL		1				

MAE'R PLENTYN YN YMDDWYN YN FYGYTHIOL TUAG AT STAFF NEU GYMHEIRIAID		DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)		0					
	DWYSEDD ISEL		1				
	DWYSEDD CANOLIG		1	1		1	
	DWYSEDD UCHEL		1				
Merched (6)		3					
	DWYSEDD ISEL						
	DWYSEDD CANOLIG		1			1	
	DWYSEDD UCHEL			1			

BU'R PLENTYN YN YMDDWYN YN DREISGAR TUAG AT ERAILL OND NI ACHOSODD NIWED CORFFOROL		DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)		0					
	DWYSEDD ISEL		2	1			1
	DWYSEDD CANOLIG						
	DWYSEDD UCHEL		1				
Merched (6)		4					
	DWYSEDD ISEL						
	DWYSEDD CANOLIG		1				
	DWYSEDD UCHEL			1			

BU'R PLENTYN YN YMDDWYN YN DREISGAR TUAG AT ERAILL, GAN ACHOSI NIWED CORFFOROL			DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)	1							
	DWYSEDD ISEL							
	DWYSEDD CANOLIG			2		1		
	DWYSEDD UCHEL			1				
Merched (6)	3							
	DWYSEDD ISEL							
	DWYSEDD CANOLIG			1				
	DWYSEDD UCHEL				1			

MAE'R PLENTYN WEDI HUNAN-NIWEIDIO YN FWRIADOL			DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)	1							
	DWYSEDD ISEL			2				
	DWYSEDD CANOLIG			2				
	DWYSEDD UCHEL							
Merched (6)	0							
	DWYSEDD ISEL							
	DWYSEDD CANOLIG			1	1	1	1	
	DWYSEDD UCHEL			1	1			

MAE'R PLENTYN WEDI DIANC O'R YSBYTY/CYMRYD ABSENOLDEB			DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)	4							
	DWYSEDD ISEL			1				
	DWYSEDD CANOLIG							
	DWYSEDD UCHEL							
Merched (6)	4							
	DWYSEDD ISEL			1				
	DWYSEDD CANOLIG							
	DWYSEDD UCHEL					1		

BUR PLENTYN YN AMHRIODOL YN RHYWIOL TUAG AT STAFF NEU GYMHEIRIAID		DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)		4					
	DWYSEDD ISEL						
	DWYSEDD CANOLIG			1			
	DWYSEDD UCHEL						
Merched (6)		5					
	DWYSEDD ISEL		1				
	DWYSEDD CANOLIG						
	DWYSEDD UCHEL						

MAE'R PLENTYN WEDI DIODDEF NIWED GAN GYMHEIRIAID OHERWYDD EI NATUR AGORED I NIWED EI HUN		DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN
Bechgyn (5)		2					
	DWYSEDD ISEL		1			1	
	DWYSEDD CANOLIG		1				
	DWYSEDD UCHEL						
Merched (6)		3					
	DWYSEDD ISEL		2				
	DWYSEDD CANOLIG		1				
	DWYSEDD UCHEL						

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/ CANFYDDIAD

Dylem sicrhau bod y materion yn ymwneud â'r canlynol yn cael eu harchwilio:

- Dylem sicrhau bod darparwyr yn cymryd pob cam gweithredu priodol i leihau'r uchel o drais geiriol, yn arbennig ymhlith bechgyn.
- Dylem sicrhau bod darparwyr yn cymryd pob cam gweithredu priodol i leihau'r uchel o ymddygiad bygythiol, yn arbennig ymhlith bechgyn.
- Dylem sicrhau bod darparwyr yn cymryd pob cam gweithredu priodol i leihau'r uchel o ymddygiad treisiol, yn arbennig ymhlith bechgyn.
- Dylem sicrhau bod darparwyr yn cymryd pob cam gweithredu priodol i leihau'r uchel o hunan-niweidio bwriadol, yn arbennig ymhlith merched.
- Dylem barhau i fonitro ymddygiad peryglus plant mewn ysbytai yn ofalus, er mwyn sicrhau y rheolir yr ymddygiad hwn yn briodol. Defnyddio dull a seiliwyd ar werthoedd staff medrus, profiadol, hyfforddedig i leihau hyn.

19 Ymyriadau Cyfyngol Hollgynhwysfawr

Ym maes iechyd meddwl neu wasanaethau cleifion mewnol a chanddynt anableddau dysgu, o bryd i'w gilydd mae angen cyfyngu mynediad at feysydd neu eitemau er mwyn atal niwed rhag y plant neu staff. Rhaid i gyfyngiadau bob amser fod yn gymesur â'r niwed y ceisia staff ei atal.

Cyfyngiadau hollgynhwysfawr yw rheolau neu bolisiau sy'n cyfyngu ar ryddid plant a hawliau eraill sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd, heb asesiadau risg unigol i gyfiawnhau eu defnyddio. Mae Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 2015 yn caniatáu defnyddio cyfyngiadau hollgynhwysfawr ond o dan amgylchiadau arbennig iawn¹⁷.

Dylid osgoi cyfyngiadau hollgynhwysfawr oni bai bod modd cyfiawnhau eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur â'r risgiau a ddynodwyd i blant penodol. Dylid ystyried effaith cyfyngiad hollgynhwysfawr ar bob plentyn a rhaid ei gofnodi yng nghofnodion y plentyn. Ni ddylid byth gyflwyno neu ddefnyddio unrhyw gyfyngiad hollgynhwysfawr i gosbi neu iselhau, dim ond ei ddefnyddio fel ymateb cymesur a mesuredig i risg a ddynodwyd; ni ddylid byth ei ddefnyddio am yn hwy nag y gellir dangos ei fod yn angenrheidiol.

Gall cyfyngiadau hollgynhwysfawr ffurfio rhan o becyn ehangach o fesurau diogelwch amgylcheddol, trefniadol a pherthynol sy'n gysylltiedig ag angen plentyn a ddynodwyd, er sicrhau diogelwch gwell er mwyn rheoli risg uchel i gymheiriaid, staff a'r cyhoedd mewn gwasanaethau diogel.

Y cyfyngiadau hollgynhwysfawr a geir yn set data'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol yw:

- Mynediad wedi'i gyfyngu i ystafelloedd gwely;
- Mynediad wedi'i gyfyngu i leoedd gwasanaeth e.e. cegin;
- Mynediad wedi'i gyfyngu i bob gofod yn yr awyr agored;
- Mynediad wedi'i gyfyngu i gyllid eich hunain;
- Mynediad wedi'i gyfyngu i ddyfeisiadau cyfathrebu. e.e. ffonau symudol;
- Yn destun cyfyngiadau gan ymwelwyr;
- Mynediad wedi'i gyfyngu i eitemau risg.

Dengys **Ffigwr 12** gyfyngiadau hollgynhwysfawr ar waith ym mhob uned.

Dengys yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn:

- Nifer cyfartalog y cyfyngiadau hollgynhwysfawr ar waith oedd tri.
- Nifer lleiaf y cyfyngiadau hollgynhwysfawr ar waith mewn un gwasanaeth oedd o, yr uchaf oedd pump.
- Diogelwch canolog a feddai'r nifer uchaf o gyfyngiadau hollgynhwysfawr ar waith a gofal aciwt y lleiaf, fel bo'r disgwyl.
- Y cyfyngiad hollgynhwysfawr amlaf ar waith oedd mynediad wedi'i Gyfyngu i eitemau risg.
- Y cyfyngiad hollgynhwysfawr amlaf ar waith oedd mynediad wedi'i Gyfyngu i gyllid eich hun.

¹⁷ Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cod Ymarfer i Gymru – Adolygiad Diwygiedig 2016. Adran 8.9–8.14.

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/ CANFYDDIAD

- Roedd rhai cyfyngiadau hollgynhwysfawr i bob golwg yn anghymesur, byddwn yn sicrhau bod darparwr yn adolygu pob cyfyngiad hollgynhwysfawr.
- Byddwn yn parhau i ofalu bod pob cyfyngiad hollgynhwysfawr, wedi ei ystyried, ei gofnodi ei adolygu, a'i ddefnyddio am yr amser lleiaf angenrheidiol.
- Byddwn yn sicrhau bod pob cyfyngiad hollgynhwysfawr wedi ei gofnodi yng nghynllun gofal yr unigolyn ifanc ac yr adolygir nhw'n rheolaidd.
- Dylai'r comisiynydd ystyried y cyfyngiadau hollgynhwysfawr sydd ar waith a'u trafod gyda'r teulu a'r cydlynnydd gofal cyn derbyn y plentyn.

		MYNEDIAD CYFYNGEDIG I'W YSTAFELL WELY EI HUN	MYNEDIAD CYFYNGEDIG I FEYSYDD GWASANAETH EE, CEGIN	MYNEDIAD CYFYNGEDIG I OFODAU YN YR AWYR AGORED	MYNEDIAD CYFYNGEDIG I'W GYLLID EI HUN	MYNEDIAD CYFYNGEDIG I DDYFEISIADAU CYFATHREBU EE, FFÔN SYMUDOL	YN DESTUN CYFYNGIADAU GAN YMWELWYR	MYNEDIAD CYFYNGEDIG I EITEMAU RISG
B	5	4	4	1	1	3	2	3
M	6	5	3	2	1	4	1	1
% CANOLIG			100%	25%	25%	100%	75%	100%
% ISEL			20%	20%	20%	40%		40%
% ACÍWT			50%	50%		50%		100%
CYFANSWM		0	7	3	2	7	3	11
%		0%	64%	27%	18%	64%	27%	100%

● FFIGWR 12: CYFYNGIADAU HOLLGYNHWYSFAWR

20 Ymyriadau Cyfyngol – Ataliaeth/Neilltuaeth

Gellir diffinio ymyriadau cyfyngol fel gweithredoedd a gynlluniwyd neu weithredoedd adweithiol sy'n cyfyngu symudiad unigolyn, neu ryddid i ymddwyn yn annibynnol, er mwyn cymryd rheolaeth ar unwaith o sefyllfa beryglus, lle mae posibilrwydd gwirioneddol i rywun arall neu eraill gael niwed, os na chymerir camau gweithredu.

Dylid ond defnyddio ymyriadau cyfyngol pan brofwyd i strategaethau eraill fod yn aflwyddiannus, neu, mewn argyfwng, pan fo'r peryglon o beidio â defnyddio ymyrraeth gyfyngol yn cael ei orbwyso gan y risgiau o'u defnyddio. Dylid eu hystyried fel ond un rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael ag anghenion plant y mae eu gweithrediadau'n niweidiol, neu mewn perygl o fod yn niweidiol.

Dylai ymyriadau cyfyngol bob amser geisio cyflawni amcanion sy'n adlewyrchu budd y plentyn y mae ei ymddygiad yn destun pryder ar unwaith, ac unrhyw bobl eraill a allai gael eu heffeithio gan yr ymddygiad hwnnw. Boed y defnyddiwyd ef ar sail fwriadol neu mewn brys, dylid ond ei ddefnyddio i atal anaf, i osgoi unrhyw ddifrod difrifol i eiddo ac i alluogi rhoi gofal hanfodol mewn modd urddasol. Dylent olygu cyn lleied o rym â phosibl, am y cyfnod lleiaf o amser a dylid rhoi ystyriaeth haeddiannol i hunan-barch, urddas, preifatrwydd, gwerthoedd diwylliannol ac anghenion unigol y plentyn. Mae'r Cod Ymarfer yng Nghymru yn datgan y dylid ond defnyddio

ataliad corfforol lle delir plentyn a'i wyneb i lawr o dan amgylchiadau eithriadol er mwyn diogelu'r claf ac eraill¹⁸.

Dylai gwasanaethau sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi ar reoli trais ac ymddygiad ymosodol gan ddefnyddio rhaglen hyfforddi a fwriadwyd yn arbennig i staff sy'n gweithio gyda phlant. Dylai rhaglenni hyfforddi gynnwys defnyddio dulliau seico-gymdeithasol er mwyn osgoi neu leihau ymyriadau cyfyngol, lle bo'n bosibl¹⁹.

Dengys **Figure 13** y cyfyngiadau ar waith ym mhob uned.

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn:

[*SYLWER: Ystyr 'ddiweddar' yw ymhen 90 niwrnod o ymweliad tîm yr Adolygiad]

- Y bu deg plentyn yn destun math o ymyriad cyfyngol a bu wyth yn destun ymyriad cyfyngol yn ddiweddar;
- Bu naw plentyn yn destun dad-ddwysáu geiriol a bu saith yn destun dad-ddwysau geiriol yn ddiweddar;
- Bu wyth plentyn yn destun ymyriad corfforol (arwain corfforol, ond nid atal) a bu pedwar yn destun ymyriad corfforol yn ddiweddar;
- Bu wyth plentyn yn destun rhyw fath o ataliad a bu chwech yn destun rhyw fath o ataliad yn ddiweddar;
- Bu pum plentyn yn destun ataliad, er ni chawsant eu rhoi ar lawr a bu tri yn destun ataliad yn ddiweddar;

¹⁸ Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cod Ymarfer i Gymru – Adolygiad Diwygiedig 2016. Section 26.29.

¹⁹ Managing violence and aggression in children and young people (2017) NICE.

- Bu chwe phlentyn yn destun ataliad a olygai cael eu rhoi ar eu cefnau, gyda'u hwyneb i fyny, a bu tri yn destun hyn yn ddiweddar;
- Bu un plentyn yn destun ataliad a olygai cael ei roi ar lawr a'i wyneb ben i lawr;
- Bu saith plentyn yn destun cael ei gadw ar wahân mewn rhyw fodd, a bu i bedwar fod yn destun cael ei gadw ar wahân yn ddiweddar;
- Bu tri phlentyn yn destun 'cyfnod terfynu' mewn ystafell wely neu 'ystafell dawelu/a bu dau yn destun 'cyfnod terfynu' mewn ystafell wely neu 'ystafell dawelu' yn ddiweddar;
- Bu pedwar plentyn yn destun cael ei gadw ar wahân mewn lle pwrpasol, arbennig a bu dau blentyn yn destun cael ei gadw ar wahân mewn lle pwrpasol, arbennig, yn ddiweddar.

	NIFER Y BECHGYN (5) NIFER Y MERCHED (6)	DIM HANES	MAE GANDDO HANES OND NID YN Y 90 NIWRNOD OLAF	ANFYNYCH, UNWAITH NEU DDWY YN Y 90 NIWRNOD OLAF	YN GYSON YN FISOL	AML IAWN YN WYTHNOSOL	YN AML DROS BEN	% GYDA HANES DIWEDDAR (YN YSTOD Y 90 NIWRNOD OLAF)
Dad-ddwysáu geiriol	Bechgyn	1		1		2	1	80%
	Merched	1	1	1	1	1	1	67%
Arweiniad corfforol (dim atal)	Bechgyn	3		1		1		40%
	Merched		2	1	2	1		67%
Ataliad (nid ar y llawr)	Bechgyn	3		1		1		40%
	Merched	3	2	1				50%
Ataliad ar y llawr gyda'r wyneb i fyny	Bechgyn	3	1			1		20%
	Merched	2	2		2			67%
Ataliad ar y llawr gyda'r wyneb ben i lawr	Bechgyn	5						
	Merched	5			1			17%
Cyfnod terfynu	Bechgyn	4		1				20%
	Merched	4	1				1	33%
Neilltuaeth	Bechgyn	2	2		1			20%
	Merched	5		1				17%

● FFIGWR 13: YMARFER CYFYNGOL

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/CANFYDDIAD

- Dylem sicrhau y gwnaed y digwyddiad o atal a chadw'r wyneb i lawr fel cam gweithredu olaf un.
- Dylem archwilio'r achosion uchel o 'ddad-ddwysáu geiriol; er mwyn sicrhau bod pob cam gweithredu'n cael ei gymryd er mwyn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol ar y wardiau.
- Dylem archwilio'r achosion uchel o 'ymyraeth gorfforol (dim atal)' er mwyn sicrhau nad ydynt, o ran natur neu raddfa yn ataliad.
- Dylem archwilio'r defnydd cyson ar 'gyfnod terfynu' i sicrhau nad ydyw, o ran natur neu raddfa, yn destun plentyn yn cael ei gadw ar wahân.
- Dylem sicrhau bod pob achos o 'gadw ar wahân' yn ddewis olaf, a wnaed mewn amgylchedd addas am y cyfnod lleiaf sy'n angenrheidiol, ac y cofnodwyd hynny'n fanwl.
- Gwnaethom ystyried fod un achos o neilltuaeth ddiweddar am gyfnod hwy nad oedd yn angenrheidiol ac mae ymchwiliad yn cael ei gynnal.
- Byddwn yn parhau i fonitro neilltuaeth er mwyn gofalu bod pob digwyddiad wedi'i drin fel y weithred olaf un, ac y gwnaed hynny mewn amgylchedd addas, wedi'i gofnodi'n gadarn ac am y cyfnod lleiaf angenrheidiol.
- Byddwn yn sicrhau y caiff pob achos o neilltuaeth ei gofnodi yn y cynllun gofal a'i thrafod gyda theuluoedd a'r tîm gofal lleol.

21 Meddyginiaeth

Term ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio meddyginiaethau seiciatrig sy'n newid lefelau cemegol yn yr ymennydd sy'n effeithio ar hwyliau ac ymddygiad yr unigolyn yw 'cyffuriau Seicotroffig'. Mae'r grŵp o feddyginiaethau'n cynnwys, meddyginiaeth gwrth-seicotig, meddyginiaeth gwrth-iselder, a sefydlogyddion hwyliau. Meddyginiaethau sy'n gweithio ar y system nerfol ganolog i leddfu pryder, helpu i gysgu, neu maent yn creu effaith o leddfu yw ancsiolytigau, tawelyddion a hypnotigau.

Bob amser, dylid monitro'r defnydd o feddyginiaethau o'r fath yn ofalus, ac ond pan ddefnyddiwyd dulliau eraill tebyg i therapïau ac addysg seico-gymdeithasol eisoes.

Gellir defnyddio rhai meddyginiaethau fel 'ataliad cemegol'. Mae ataliad cemegol yn cyfeirio at ddefnyddio meddyginiaeth a weinyddwyd at ddiben rheoli neu leddfu ymddygiad afreolaidd/treisiol, lle na ragnodir ef i drin salwch corfforol neu feddyliol a ddynodwyd yn ffurfiol.

Dylid ond defnyddio meddyginiaethau o'r fath i reoli ymddygiad fel ymyriad dewis olaf ar ôl rhoi cynnig ar ddefnyddio technegau dad-ddwysáu. Dylai iechyd corfforol y plentyn gael ei fonitro'n agos yn ystod ac wedi'u defnyddio.

Dengys **Ffigwr 14** y feddyginiaeth reolaidd, ofynnol seicotroffig a hypnotig a ragnodwyd i bob plentyn.

**SYLWER: Defnyddir y byrfodd 'PRN' fel naratif yn y tabl isod. Ei ystyr yw Pro Re Nata, term Lladin cyffredin sy'n golygu "fel bo'r angen". Caiff adegau rhoi'r feddyginiaeth eu penderfynu gan anghenion y plentyn. Hefyd, SYLWER, rhoddwyd ancsiolytigau, tawelyddion a hypnotigau mewn un grŵp gyda'i gilydd fel 'hypnotigau' yn y naratif isod.*

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn y:

- Rhagnodwyd un ar ddeg o blant â meddyginiaeth reolaidd, seicotroffig neu hypnotig;
- Rhagnodwyd saith o blant â meddyginiaeth seicotroffig neu hypnotig;
- Rhagnodwyd wyth o blant â meddyginiaeth gwrth-seicotig, rhagnodwyd dau a PRN gwrth-seicotig;
- Rhagnodwyd pedwar o blant â meddyginiaeth gwrth-iselder ond nid fel PRN;
- Rhagnodwyd un plentyn â sefydlogydd hwyliau, er nid fel PRN;
- Rhagnodwyd tri o blant ag ancsiolytigau, tawelyddion neu feddyginiaeth hypnotig, a rhagnodwyd saith â PRN gwrth-seicotig. Roedd dau ragnodiad PRN at bigiadau mewngyhyrol;
- Rhagnodwyd wyth plentyn â mwy nag un feddyginiaeth o'r pedwar teulu posibl o feddyginiaethau (gwrth-seicotig/tawelyddion/sefydlogydd hwyliau/ancsiolytigau, tawelyddion a hypnotigau);
- Rhagnodwyd un plentyn â thair meddyginiaeth o'r pedwar teulu posibl o feddyginiaethau (gwrth-seicotig/gwrth-iselder/sefydlogydd hwyliau, csiolytigau, tawelyddion a hypnotigau).

MEDDYGINIAETH		BECHGYN	MERCHED
NIFER Y PLANT		5	6
Gwrth-seicotigau	Dim hanes o ddefnyddio PRN na defnydd rheolaidd ohono	1	2
	Nifer yn ei ddefnyddio'n rheolaidd	4	4
	Gall nifer y rhai ar PRN fod yn rheolaidd	1	1
	Defnyddio PRN yn wythnosol	1	
	Defnyddio PRN yn gyson iawn: bob dydd		1
	% yn ei ddefnyddio'n rheolaidd	80%	67%
	% ar PRN	20%	17%
	% yn ei ddefnyddio'n rheolaidd	20%	17%
Cyffuriau gwrth iselder	Dim hanes o ddefnyddio PRN na defnydd rheolaidd ohono	5	2
	Nifer yn ei ddefnyddio'n rheolaidd		4
	% yn ei ddefnyddio'n rheolaidd		67%
Sefydlogyddion hwyliau	Dim hanes o ddefnyddio PRN na defnydd rheolaidd ohono	4	6
	Nifer yn ei ddefnyddio'n rheolaidd	1	
	% yn ei ddefnyddio'n rheolaidd	20%	
Cyffuriau lleihau gorbryder, tawelyddion a hypnotigau	Dim hanes o ddefnyddio PRN na defnydd rheolaidd ohono	1	3
	Nifer yn ei ddefnyddio'n rheolaidd	1	2
	Gall nifer y rhai ar PRN fod yn rheolaidd	4	3
	Anfynych yw'r defnydd o PRN: unwaith neu ddwy yn ystod y 90 niwrnod diwethaf	2	1
	Defnydd misol o PRN	1	
	Defnydd dyddiol cyson iawn o PRN	1	2
	% yn ei ddefnyddio'n rheolaidd	20%	33%
	% ar PRN	80%	50%
	% arno'n rheolaidd ymhen 90 niwrnod o adolygiad PRN	80%	50%

● FFIGWR 14: MEDDYGINIAETH SEICOTROFFIG A HYPNOTIG

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/CANFYDDIAD

- Dylem sicrhau y caiff pob meddygiaeth ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau y rhagnodwyd hwy ar y dos lleiaf posibl a sicrhau'r gostyngiad mewn symptomau a ddymunir.
- Dylem sicrhau y gweinyddir pob meddyginiaeth i'r diben o leddfu ymddygiad cythryblus, ac y defnyddiwyd ef fel ymyriad dewis olaf.
- Dylem archwilio pob cyfle i leihau'r defnydd o PRN.

22 Monitro Sgil Effeithiau Meddyginiaeth

Yn ogystal â manteision posibl, mae gan lawer o'r meddyginiaethau sgil effeithiau, ac nid yw meddyginiaeth gwrth-seicotig, gwrth-iselder, sefydlogwyr hwyliau, ancsiolytigau, tawelyddion a hypnotigau yn wahanol.

Gall unigolion a chanddynt broblemau iechyd meddwl fod yn llai rhugl yn llafar ac yn llai tebygol o gwestiynu rhagnodiad, newid mewn trefn meddyginiaeth, sgil effeithiau posibl neu a oes angen monitro. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith y gallai rhai o'r unigolion hyn feddu ar lai o allu, yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol ar staff gofal iechyd meddyliol i fonitro effeithiau meddyginiaethau²⁰.

Dylid monitro meddyginiaethau a ragnodwyd yn rheolaidd er sicrhau eu bod yn effeithiol, eu sgil effeithiau, a'u heffaith ar iechyd corfforol a bywyd bob dydd. Gellid monitro drwy restrau gwirio pwrpasol a holiaduron neu gynnal profion gwaed neu electrocardiogramau.

Dengys **Ffigwr 15** monitro sgil effeithiau meddyginiaethau seicotroffig neu hypnotig a ragnodwyd i bob plentyn.

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd at yr Adolygiad hwn nad oedd tystiolaeth fod gan tri phlentyn y rhagnodwyd meddyginiaeth reolaidd seicotroffig neu hypnotig ar eu cyfer, declyn sgil effeithiau wedi ei gwblhau.

Plant ar feddyginiaeth gwrth-seicotig / gwrth-iselder / sefydlogi hwyliau / lleihau gorbryder / tawelu a hypnotig	PLANT YN DERBYN PRESGRIPSIWN	DULL MONITRO SGIL-EFFEITHIAU WEDI'I GWBLHAU	PROFION GWAED PERTHNASOL	MONITRO'R GALON /ECG	DULL MONITRO SGIL-EFFEITHIAU WEDI'I GWBLHAU	PROFION GWAED PERTHNASOL	MONITRO'R GALON /ECG
	11	8	10	6	73%	91%	55%

● FFIGWR 15: MEDDYGINIAETH – MONITRO SGIL EFFEITHIAU

²⁰ Maidment ID, Lelliott P, Paton C. Medication errors in mental healthcare: a systematic review. Qual Saf Health Care. 2006; 15(6):409–413. doi:10.1136/qshc.2006.018267.

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHELLIAD/CANFYDDIAD

Dylem sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn meddyginiaethau seicotroffig neu hypnotig a ragnodwyd, yn cael ei fonitro'n rheolaidd ar gyfer sgil effeithiau posibl gan ddefnyddio teclyn cydnabyddedig a gwneir gwiriadau corfforol iechyd arno, os yn briodol.

23 Absenoldeb

Mae gan wasanaethau cleifion allanol gyfrifoldeb dros baratoi plant i ddychwelyd yn llwyddiannus i'r gymuned. Gall cyfnodau o absenoldeb ffurfio elfen hanfodol o'r gwaith paratoi hwn. Rhaid i unrhyw benderfyniad i gytuno ar gyfnod o absenoldeb gydbwysu'r cyfraniad a wna i adferiad y plentyn, yn erbyn ystyriaethau er lles iechyd y plentyn a phobl eraill.

Wrth i'r plentyn wneud cynnydd drwy gydol ei daith gofal personol, gall absenoldeb newid o gael ei hebrwng gan staff i'r gymuned leol neu ardal y cartref, i gael absenoldeb heb ddim staff (heb hebrwng), i absenoldeb dros nos i gartref neu gyfleuster gofal arall, fel rhan o gynllun pontio.

Er bod gan blant nad ydynt yn destun adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, yr hawl i adael y ward unrhyw bryd, mae gan y gwasanaeth ddyletswydd gofal amdanynt, yn cynnwys cyfrifoldeb dros eu diogelwch a'u lles. Mae plant sy'n destun adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael yr hawl i absenoldeb gan eu seiciatrydd am gyfnodau a ddiffiniwyd.

Mae **Ffigwr 16** yn dangos yr absenoldeb a hebryngwyd, heb ei hebrwng ac absenoldeb dros

nos cyfredol, a roddwyd i blant yn unol â'r math o ofal.

Dangosodd yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn y:

- Cafodd un plentyn mewn uned ddiogel ganolig yn ddiweddar absenoldeb yn y gymuned a hebryngwyd. Ni chafodd yr un plentyn mewn uned ddiogel ganolig absenoldeb a hebryngwyd neu absenoldeb dros nos.
- Cafodd pum plentyn mewn uned ddiogel isel wyliau yn y gymuned a hebryngwyd, er ond 2 gafodd absenoldeb yn ddiweddar. Cafodd 1 plentyn mewn uned ddiogel isel absenoldeb heb ei hebrwng yn ddiweddar, ond dim un dros nos.
- Cafodd dau blentyn mewn gofal aciwt absenoldeb yn y gymuned a hebryngwyd. Ni chafodd yr un plentyn mewn gofal aciwt absenoldeb na hebryngwyd neu absenoldeb dros nos.

			NID OES GANDDO ABSENOLDEB AR HYN O BRYD	WEDI CAEL ABSENOLDEB OND NID YN YSTOD Y 90 NIWRNOD DIWETHAF	ABSENOLDEB MISOL	ABSENOLDEB WYTHNOSOL
Absenoldeb yn y Gymuned a hebryngwyd	B	5	2	1	1	1
	M	6	1	2		3
Absenoldeb yn y Gymuned heb ei hebrwng	B	5	4		1	
	M	6	6			
Absenoldeb dros nos	B	5	4	1		
	M	6	6			

● FIGURE 16: LEAVE

ADOLYGIAD IECHYD CENEDLAETHOL ARGYMHEDIAD/ CANFYDDIAD

Rhaid i ni sicrhau y galluogir pob plentyn, lle bo'n ddiogel a therapiwtig, ymgysylltu yn y gymuned neu absenoldeb cartref.

24 Gwybodaeth 'CID' Cysylltedd a Chyd-ddibyniaeth

Ail-lunir gwybodaeth a gafwyd am bob plentyn yn rhan o'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn fel un 'CID'.

Mae'r matrices 'cysylltedd gwybodaeth a chyd-ddibyniaeth' yn ddull o ddisgrifio cyfraniadau gofal presennol y plentyn a chanlyniadau, er mwyn penderfynu a yw'r cyfyngiadau, y feddyginiaeth a'r gofal yn ymddangos yn rhesymegol a chymesur.

Defnyddiasom y 'CID' hwn i wneud awgrym ar briodolrwydd cyffredinol lleoliad presennol y plentyn mewn perthynas â'i anghenion.

Dangosir CID i blentyn unigol o dan yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn ar y dudalen sy'n dilyn.

Dengys y CID ar y dudalen sy'n dilyn blentyn sydd, i bob golwg, mewn lleoliad priodol a chanddo ymddygiadau risg lluosog, ymyriadau a chanlyniadau. Yn yr achos hwn, buasem yn cynghori monitro'r PRN, yr ymyriadau cyfyngol a defnydd o ofal mewn brys, yn ofalus.



LEFEL GOFAL
Y PERSON YW

Arsylwi / Cefnogi - 1:1 neu
uwch - am 24 awr y dydd
oherwydd perygl o niwed
iddo'i hun



LEFEL GOFAL
Y PERSON YW

Unigolyn angen cymorth â
phob gweithgaredd dydd i
ddydd, neu'r rhan fwyaf
ohonynt



LEFEL GOFAL
Y PERSON YW

Patrwm meddyginiaeth
cymhleth yn gofyn am
orchwyliaeth gan
nyrs/staff meddygol

MAE'R PERSON YN DERBYN Y
GOFAL MEDDYGOL
CYFFREDINOL A GANLYN

MAE'R PERSON YN CAEL Y
MATHAU CANLYNOL O THERAPI



- SEICOLEG GLINIGOL/FFORENSIG
- THERAPYDD GALWEDIGAETHOL
- CYNORTHWYDD THERAPI GALWEDIGAETHOL
- THERAPI CLINIGOL ARALL

Plentyn gwryw
MEWN GOFAL, Â
DIAGNOSIS SYLFAENOL O
Salwch meddwl

GOFAL SYLFAENOL ✓
ARCHWILIAD ARFEROL GAN FEDDYG TEULU
ARCHWILIAD ARFEROL GAN DDEINTYDD

GOFAL BRYD ✓
ANGEN YR ADRAN ACHOSION BRYD
ANGEN MEDDYG TEULU AR FRYD

MAE AR Y PERSON ANGEN YR
YMYRIADAU CYFYNGOL CANLYNOL



- DAD-DDWYSÁU LLAFAR DYDDIOL
- ARWEINIAD YMARFEROL WYTHNOSOL
- ATALIAD AR Y LLAWR (AR EU CEFN) YN FISOL

MAE PATRWM MEDDYGINIAETH
Y PERSON FEL A GANLYN

RHEOLAIDD
MEDDYGINIAETH GWRTH-SEICOTIG
MEDDYGINIAETH LLEIHOU GORBRYDER,
TAWELU A HYPNOTIG

YN ÔL Y GOFYN
MEDDYGINIAETH GWRTH-SEICOTIG (DYDDIOL) 24h
MEDDYGINIAETH LLEIHOU GORBRYDER,
TAWELU A HYPNOTIG (DYDDIOL)

DERBYNIWYD
y person hwn
O UNED CAMHS GIG CYMRU,
5 mis yn ôl
YN CAEL EI GADW O DAN
Adran 3
MHAS

5
mis

UNED
CAMHS
GIG
CYMRU

adran
3
MHA

Mae canlyniadau gweithredol
y person hwn fel a ganlyn

Bydd yr ysbyty yn



Lleihau/Lleihau i'r
eithaf arwyddion y
plentyn o drais,
ymddygiad
ymosodol neu
ymddygiad sy'n
herio eraill.



Lleihau/Lleihau i'r
eithaf/rheoli
digwyddiadau neu
ideoleg hunan-ni-
weidio y plentyn.



Lleihau dibyniaeth y
plentyn a hybu ei
annibyniaeth drwy
sgiliau bywyd.



Grymuso'r plentyn
drwy obaith,
ymagwedd gadarn-
haol ac ymyriadau
seico-gymdeithasol.



Lleihau/Lleihau i'r
eithaf symptomau
iechyd meddwl y
plentyn drwy
ffarmacoleg.



Sicrhau canlyniadau
cadarnhaol i'r
plentyn drwy
therapiau seicolegol
penodol.



Mae'r person wedi dangos yr
ymddygiadau risg canlynol o
fewn y 90 diwrnod diwethaf



ISEL CAN UCHEL

DYDDIOL

Ymddygiad ymosodol llafar

WYTHNOSOL

Difrod i eiddo
Dangos ymddygiad ymosodol tuag at eraill
Hunan-niweidio (yn fwriadol)

MISOL

Ymddygiad treisgar tuag at eraill (dim niwed corfforol)

Dianc o'r ysbyty/cartref unwaith neu ddwywaith yn y 90 diwrnod diwethaf
Ymddygiad treisgar a achosodd niwed corfforol iddo'i hun neu eraill

25 Adolygiad Ansawdd

Agwedd ganolog ar yr Adolygiad Iechyd
Cenedlaethol oedd adolygu safon y ddarpariaeth
gofal i'r 11 plentyn.

Roedd yr unedau hynny a ffurfiodd ran o
Fframwaith Gydwethredol Cenedlaethol GIG
Cymru i ysbytai CAMHS eisoes yn destun
sicrhau ansawdd cadarn a gwella prosesau.

Roedd yr archwiliad wedi adolygu
dogfennaeth tebyg i nodiadau clinigol, siartiau
meddyginiaeth ac asesiadau risg. Yn ogystal,
roedd yr archwilwyr wedi trafod gydag aelodau'r
tîm aml-broffesiynol a lle oedd hi'n bosibl,
y plentyn a'r teulu/gofalwyr. Roedd pob
archwiliad yn cynnwys gwiriad amgylcheddol.

Oherwydd natur yr Adolygiad Iechyd
Cenedlaethol hwn, defnyddiodd y tîm fersiwn
gywasgedig o'r adolygiad ysbyty safonol. Roedd
y fersiwn hon yn canolbwyntio ar ddeg thema a
ddynodwyd yn flaenorol. Fe'u cyflwynir isod:

- Staff
- Cynllunio Gofal
- Ymyriadau Ffarmacolegol
- Iechyd Corfforol
- Ymyriadau Cyfyngol
- Ymyriadau Therapiwtig
- Arsylwadau Diogelwch
- Diogelwch a Lles
- Addysg
- Maetheg

Codwyd unrhyw feysydd oedd yn destun pryder
ar ddiwrnod yr archwiliad gyda'r darparwr.

Mae'r adran isod yn crynhoi arferion da a
meysydd sydd angen eu gwella, o ran pob
thema.

25.1 Thema Adolygiad Ansawdd: Staff

- ✓ Nododd llawer o'r plant fod y staff yn
"rhagorol" ac yn "methu â gwneud digon".
- ✓ Roedd rhai aelodau teuluoedd yn teimlo bod
staff yn eu cefnogi'n dda.
- ✓ Ar lawer o unedau, dywedodd staff y teimlent
eu bod yn gallu canolbwyntio ar les cleifion.
- ✓ Roedd hyfforddiant staff yn flaenoriaeth uchel
ar lawer o unedau.
- ✓ Roedd lefelau staff uchel yn cydymffurfio â
gofynion hyfforddiant gorfodol ar
lawer o unedau.
- ✗ Gwnaed defnydd helaeth o staff banc/
asiantaethau ar rai unedau.
- ✗ Roedd hyfforddiant ymyriadau cyfyngol yn
annigonol ar un safle.

THEMA GYFFREDINOL

Mae staff yn fedrus iawn, yn brofiadol
ac wedi'u hyfforddi; er y dylid lleihau ar y
ddibyniaeth ar staff o asiantaethau.

Teimla plant fod staff yn gefnogol.

25.2 Thema Adolygiad Ansawdd: Cynllunio Gofal

- ✓ Mae gan bob plentyn adroddiad cyn-mynediad wedi'i gwblhau.
- ✓ Cynhaliodd pob uned gyfarfodydd wythnosol aml-broffesiynol i drafod cynllun gofal y plentyn.
- ✓ Gwahoddwyd pob plentyn i fynd i gyfarfod cynllunio gofal.
- ✓ Roedd llawer o gynlluniau gofal yn cynnwys teuluoedd y plentyn.
- ✓ Roedd gan y rhan fwyaf o'r unedau drefn o ddynodi gofynion 'nas fodlonwyd'.
- ✓ Roedd staff un uned yn cyfarfod bob bore i drafod y 24 awr ddiwethaf ac adolygu cynlluniau gofal.
- ✗ Methodd dwy uned â chadw at ofynion cynllunio gofal a thriniaeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
- ✗ Ni chynhaliwyd adolygiad misol o gynlluniau gofal aml-broffesiynol ar ddwy uned.

THEMA GYFFREDINOL

Defnyddir dull holistiaidd ac wedi'i phersonoli gan y rhan fwyaf o ddarparwyr er mwyn cyrchu'r unigolyn, bodloni ei ofynion a sicrhau mai ef sy'n rheoli a'i fod yn wybodus.

Rhaid i ni sicrhau bod pob uned yn cynnal adolygiadau gofal a thriniaeth.

25.3 Thema Adolygiad Ansawdd: Ymyriadau Ffarmacolegol

- ✓ Roedd gan bob uned drefn ar waith i fonitro ac archwilio rhagnodi a gweinyddu meddyginiaeth.
- ✓ Mae ffarmacolegydd allanol yn archwilio pob proses feddyginiaeth unedau.
- ✓ Nid oedd pob maes rhagnodi meddyginiaeth yn caniatáu mynediad anawdurdodedig. Roeddent i ffwrdd o'r brif ward i ganiatáu preifatrwydd.
- ✗ Nid oedd pob uned yn darparu taflenni hawdd i'w deall ar feddyginiaeth.
- ✗ Nid oedd pob uned yn defnyddio offer monitro.

THEMA GYFFREDINOL

Mae meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi, ei gweinyddu a'i harchwilio'n allanol yn weithredol.

Gwelwyd diffyg cynnydd i ganfod sgil effeithiau posibl meddyginiaeth ac yn hytrach, dibynnwyd gormod ar sgiliau staff.

25.4 Thema Adolygiad Ansawdd: Iechyd Corfforol

- ✓ Roedd gan bob uned brosesau ar waith i fonitro ac archwilio rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau.
- ✓ Darparodd y rhan fwyaf o unedau wiriadau iechyd corfforol cadarn, amserol, effeithiol a pharhaus.
- ✓ Adolygodd y rhan fwyaf o unedau ofynion corfforol gofal iechyd yn y cyfarfodydd rheolaidd, aml-broffesiynol.
- ✗ Ni wnaeth un uned gynhyrchu gwiriadau iechyd corfforol cadarn, amserol, effeithiol a pharhaus.
- ✗ Nid oedd gan rai unedau gynllun gofal iechyd corfforol ar waith.

THEMA GYFFREDINOL

Gwneir gwiriadau iechyd ar y rhan fwyaf o unedau gyda llawer yn llunio cynlluniau iechyd corfforol cadarn.

Dylai pob plentyn gael cynllun gofal iechyd corfforol.

25.5 Thema Adolygiad Ansawdd: Ymyriadau Cyfyngol

- ✓ Yn dilyn digwyddiad o ymyriadau corfforol, mae llawer o'r unedau'n hwyluso sesiwn gloriannu.
- ✓ Mae gan bob uned ystafell neilltuaeth.
- ✓ Rhoddodd pob uned wybod i unigolyn am ei gyfrifoldeb rhianta a chomisynwyr os defnyddir ymyriadau corfforol.
- ✓ Roedd pob uned yn adolygu unrhyw ddefnydd ar ymyriadau corfforol a neilltuaeth.
- ✗ Ni allodd un uned, a ddefnyddiodd neilltuaeth, ddangos y gwnaed hynny am y cyfnod lleiaf posibl.
- ✗ Roedd nifer o unedau wedi methu â sicrhau bod technegau dad-ddwysáu penodol, wedi'u personoli yn rhan o gynlluniau rheoli risg y plentyn.
- ✗ Roedd gan nifer o unedau waharddiad hollgynhwysfawr ar waith. Ni adnabuwyd risgiau o olwg personol.
- ✗ Ymddangosai gwaharddiadau hollgynhwysfawr yn anghymesur ar un uned.

THEMA GYFFREDINOL

Defnyddir ataliad yn gymesur a phrodol, ond mae angen iddo fod yn unigolyddol, wedi ei drafod a'i gofnodi fel rhan o'r cynllun gofal a thriniaeth.

Prin yw'r defnydd ar neilltuaeth, ond pan ddefnyddir ef, mae angen iddo fod am yr amser lleiaf posibl.

Dylid adolygu cyfyngiadau hollgynhwysfawr yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn angenrheidiol ac wedi'u cydbwysu'n dda yn erbyn rhyddid personol.

25.6 Thema Adolygiad Ansawdd: Ymyriadau Therapiwtig

- ✓ Mae tîm seicolegol sefydledig ar waith ymhob uned.
- ✓ Roedd ymyriadau seicolegol unigol, yn seiliedig ar lunio ac asesiad, ar gael i bob plentyn.
- ✓ Roedd ymyriadau seicolegol grŵp, tebyg i bryder, hunan-barch, hwyl wael a rheolaeth emosiynol ar gael i bob plentyn.
- ✓ Roedd pob uned wedi cofnodi'n glir pan oedd plentyn wedi ymddieithrio oddi wrth therapïau, y rhesymeg dros yr ymddieithrio hwnnw a chyfleoedd i ennyn diddordeb eto.
- ✓ Gallai pob plentyn gael cefnogaeth therapi galwedigaethol.
- ✓ Roedd pob uned yn darparu gweithgareddau unigol ac mewn grŵp.
- ✓ Roedd gan bob plentyn nyrs enwebedig.

THEMA GYFFREDINOL

Roedd gan bob plentyn fynediad i amrywiaeth o gefnogaeth seicolegol a therapiwtig, yn unigol ac mewn grŵp.

25.7 Thema Adolygiad Ansawdd: Arsylwadau Diogelwch

- ✓ Ar bob uned, roedd cofnodion arsylwadau a adolygwyd yn gyflawn a chywir. Roedd cofnodion arsylwi'n cynnwys: gwybodaeth am faterion risg, lefelau risg, a manylion clir o lefelau arsylwi ac ymyriadau i arwain staff sy'n cyflawni dyletswyddau arsylwi.
- ✓ Ar y rhan fwyaf o unedau, roedd staff nyrsio cymwys yn cynyddu eu harsylwi os oedd ymddygiadau risg yn digwydd.
- ✓ Ar bob uned, gwneir y penderfyniad i leihau lefelau arsylwi ond fel rhan o gyfarfod tîm aml-broffesiynol llawn.
- ✓ Ar un uned, mae staff yn annog plant i gymryd cyfrifoldeb dros gyd-gynhyrchu cynllun diogelwch.

THEMA GYFFREDINOL

Adolygwyd arsylwadau diogelwch yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod modd eu cyfiawnhau, a'u bod yn bodloni'r gofynion ac wedi'u cofnodi.

25.8 Thema Adolygu Ansawdd: 25.9 Thema Adolygu Ansawdd: Diogelwch a Lles Addysg

- ✓ Ar bob uned, mae gan blant gyfleoedd i lesio eu barn, eu pryderon ac i gynnig awgrymiadau drwy amrywiol fforymau.
- ✓ Ar bob uned, enwyd arweinwyr diogelu/arweinwyr amddiffyn plant, a chyhoeddwyd eu manylion.
- ✓ Ar bob uned, mae staff wedi cael hyfforddiant diogelu derbyniol.
- ✓ Roedd gan bob plentyn asesiad risg wedi ei ffurfioli ar waith.
- ✓ Roedd pob uned wedi trafod risg yn y cyfarfod amlldisgyblaethol.
- ✗ Ar un uned, ni ddilynwyd y camau gweithredu atal risg a gofnodwyd yn y cynllun rheoli risg.

- ✓ Bodlonodd y rhan fwyaf o unedau anghenion addysgol y plentyn.
- ✓ Cynigiodd y rhan fwyaf o unedau amrediad o 6 gweithgaredd addysgol.
- ✗ Ni adnabu rhai unedau anghenion addysgol y plentyn wrth gael ei dderbyn.
- ✗ Nid oedd gan bob plentyn fynediad at gyfleuster arholiad addysgol a gymeradwywyd.
- ✗ Ni wnaeth pob uned ddangos tystiolaeth ei fod yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â gwasanaethau addysgol blaenorol i drafod llwyddiannau academiaidd plentyn.

THEMA GYFFREDINOL

Gwneud asesiad risg a rheolaeth a'i adolygu'n rheolaidd.

Mae prosesau diogelu ar waith.

Ceisir barn ac awgrymiadau plant.

THEMA GYFFREDINOL

Ceisiodd pob uned fodloni anghenion addysgol y plentyn gan gydbwyso yn erbyn pryderon risg a diogelwch.

Angenion asesu i gynnwys anghenion addysgol a materion cyn derbyn plant.

25.10 Thema o Adolygiad

Safon: Maetheg

- ✓ Darparodd pob uned fynediad at wasanaeth dietegydd.
- ✓ Mae pob uned yn defnyddio offer monitro maetheg.
- ✓ Cynigiodd pob uned ddiodydd poeth ac oer ar alw.
- ✓ Anogwyd pob plentyn i fwyta deiet iach, cytbwys.
- ✗ Methodd un uned â chanfod angen maetheg yng nghynllun gofal y plentyn.
- ✗ Nas adnabuwyd pob mater ar fynediad.

THEMA GYFFREDINOL

Mae unedau'n darparu deiet iach, cytbwys gyda mynediad at gymorth deietig.

Ni chanfyddwyd rhai materion drwy'r prosesau asesu cychwynnol.

26 Casgliad

Ar gychwyn y ddogfen hon ceir crynodeb o ganfyddiadau pob maes yn yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn.

Dynodwyd nifer y meysydd sydd angen camau gweithredu pellach neu ystyriaeth, er mwyn cyrraedd y safon a rhoi'r profiad gofal gorau.

O ran safon y gofal, dynodwyd arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.

Os yn angenrheidiol, rhoddwyd cynlluniau gweithredu adferol i ddarparwyr i fynd i'r afael â phryderon neu faterion a ddynodwyd.

Mewn naw o'r un ar ddeg achos, canfu'r wybodaeth a geir drwy'r Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn achosion fod y lleoliadau cyfredol yn briodol i fodloni gofynion gofal y plentyn.

Mewn dau o'r un ar ddeg achos, dynodwyd/bron y bodlonwyd canlyniadau lleoliadau'r plentyn a bod y plentyn yn barod i symud i lefel ddibyniaeth is.

Yn olaf, dylid cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â phob maes yn yr Adolygiad Iechyd Cenedlaethol hwn sydd angen gweithredu pellach arnynt.



UNED GOMISIYNU
CYDWEITHREDOL CENEDLAETHOL

UNIT 1 CHARNWOOD COURT
HEOL BILLINGSLEY
PARC NANTGARW
TREForest CF15 7QZ

GIG.NCCU@WALES.NHS.UK
01443 744928